

ECO'R WYDDFA

RHIF 387

EBRILL 2011

PRIS 50c

YN Y RHIFYN HWN:

- Llofruddiaeth gwen Ellis Parry
- Cofio '58
- Sefydlu Clwb Beicio Mynydd
- Arddangosfa Artist Arbennig

IEUENCTID YN LLWYDDO

GOLYGYDD CHWARAEON Y DYFODOL?



LLONGYFARCHIADAU i Osian Worth (13 oed) ar ennill gwobr arbennig mewn cystadleuaeth ysgrifennu adroddiad am un o gemau pêl-droed Leeds United dros gyfnod y Nadolig.

Roedd y gystadleuaeth yn agored i bawb dros 18 oed ond fe gyflwynodd Osian ei adroddiad er mwyn derbyn adborth am ei waith gan bobl broffesiynol yn y maes yma, gan mai ei uchelgais yw bod yn 'football commentator'.

Roedd y beirniaid wedi dychryn o weld safon uchel o waith gan un mor ifanc a phenderfynwyd gwobrwyo Osian am hyn.

Cafodd wahoddiad i fynychu gêm rhwng Leeds a Coventry i

dderbyn ei wobr ar y cae cyn y gêm gan Eddie Gray (un o hen chwaraewyr Leeds), sef tystysgrif a chan punt i'w wario yn siop y clwb. Da iawn, Osian. Dal ati.

HEDDLU GOGLEDD CYMRU Apêl yn dilyn bwrghleriaeth ger Deiniolen

Mae'r heddlu'n apelio am dystion a gwybodaeth yn dilyn byrgleriaeth mewn tŷ ger Deiniolen.

Rywdro rhwng 1pm a 3:30pm ddydd Iau, 3ydd Mawrth, digwyddodd byrgleriaeth mewn tŷ yn Ninorwig tra'r oedd y preswylwyr allan.

Yn ystod y fyrgleriaeth cafodd swm mawr o arian a gemwaith ei ddwyn. Ymysg y gemwaith roedd citemau gwahanol iawn, megis loced o lechen Gymreig, breichled ddiemwnt, dwy freichled o wydr grisial, broct camco gyda chefnid gwyn, llun o ddynes yn gwisgo ffrog werdd a thlws crog pinc gyda breichled yr un fath. Mcdai SCCH Michael Couling o'r Tim Plismona'r

ENNILL DWY FEDAL AUR

PENCAMPWRIAETHAU NOFIO RHYNGWLADOL YR URDD. Dyma lun o Moli Haf Roberts, blwyddyn 6, o Ysgol Bethel a enillodd ddwy fedal aur ym mhencampwriaethau Nofio Cynradd Rhyngwladol yr Urdd yng Nghaerdydd ddiwedd mis Ionawr. Enillodd Moli ei medalau yn y ras 50m dull rhydd ac hefyd yn y ras 50m cefn. Mae Moli yn aelod o Glwb Nofio Caernarfon.



BYD Y BANDIAU


Yn ystod y trydydd penwythnos ym mis Mawrth cynhaliwyd Pencampwriaeth Bandiau Pres Cymru yn Neuadd y Brangwyn, Abertawe. Roedd y ddau fand o'r fro yn cystadlu, ond y tro hwn ni ddaethant â gwobrau yn

ôl. Roedd Deiniolen yn cystadlu yn y Dosbarth Cyntaf a daethant yn nawfed. Daeth Llanrug yn bedwerydd yn Nosbarth 2.

Gwobrau'r Uchel Siryf. Yn ystod y mis, bu Band Ieuencid Llanrug yn y Llys yng Nghaernarfon yn cymryd rhan yn noson wobrwyo Uchel Siryf Gwynedd. Daeth dwy wobwr yn ôl i Lanrug ar y noson.

Cyflwynwyd Michael Thomas o Bontnewydd â Thystysgrif Cymunedol yr Uchel Siryf am ei waith diflino dros nifer helaeth o flynyddoedd yn hybu ac yn hyfforddi'r Band Ieuencid.

Cyflwynwyd Tystysgrif Teilyngdod yr Uchel Siryf i'r Band Ieuencid hefyd "am waith canmoladwy a wneir er mwyn hyrwyddo lles a datblygiad pobl ifanc." Gyda'r fath ymroddiad mae dyfodol y band yn ddiogel am flynyddoedd.



Gymdogaeth; 'Rwy'n annog cymunedau lleol i fod yn wyliadwus o'r math yma drosedd. Yn yr achos hwn cafodd y troseddwr fynediad i'r tŷ drwy gicio'r drws cefn pren a thynnu'r pren oddi ar ei golfachau. 'Gofynnwn i unrhyw un a allai fod wedi gweld rhywbeth amheus yn ardal Dinorwig y prynhawn hwnnw, neu unrhyw un sydd â gwybodaeth ynglŷn â lleoliad y gemwaith gysylltu â ni ar unwaith.' Dylai unrhyw un sydd â gwybodaeth gysylltu â swyddogion gorsafocdd Llanberis neu Gaernarfon trwy ffonio 101 neu ffonio Crimestoppers Cymru yn ddienw ar 0800 555 111.

PWYSIG

Yr Eco nesaf - rhaid i'r holl newyddion, storïau, arthegylau a lluniau ddod i law erbyn

GWENER, EBRILL 15.
Ni ellir cynnwys dim ar ôl y dyddiad yma.

ECO'R WYDDFA

RHIF 387

EBRILL 2011

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwy'r pentref neu i**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com

neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu: ecorwyddfa@gmail.com

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS WENER, 15 EBRILL

Os gwelwch yn dda.

Dyddiad Gosod

NOS SUL, 24 EBRILL

Sefydliad Coffa Llanrug

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 28 EBRILL

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2011

Rhifyn	Copi	Gosod	Plygu	Ble
Mai	Ebrill 17	Ebrill 24	Ebrill 28	Deiniolen
Mehefin	Mai 15	Mai 22	Mai 26	Brynrefail

Llythrau

PORTREAD

Annwyl Ddarllenwyr,
Yn rhifyn mis Chwefror o'r *Eco*
fe ymddangosodd 'Portread' o'r
cyfaill Alun Hughes o Fachwen,
gan gyfeirio at y gwahanol
wledydd y bu yn ymarfer ei
ddawn ynddynt fel dringwr
mynyddoedd.

Mewn sgwrs ar y ffôn yn
ddiweddar gyda Dei Tomos
(sydd yn ddigwyddiad gweddol
aml, ond nad oedd, meddai, yn
ymwybodol mai fi oedd yr
awdur) datgelodd ei siom na
chyfeiriwyd at ddigwyddiad
hanesyddol yn y portread, sef
bod tri o fechgyn o ddalgylch
Eco'r Wyddfa, sef Dei ei hun a'i
frawd, Tom, ac Alun Hughes,
wedi dringo llethrau Everest
cyn belled â'r man eiconaid
hwnnw, sef 'Base Camp'.

Pan ddeallais hyn
ymddiheurais i Dei ac i Tom
ond, fel yr eglurais, nid oeddwn
yn ymwybodol o'r ffaith hon.
Yn sicr, pe byddai Alun wedi
sôn wrthyf byddwn yn ddi-os,
wedi cynnwys hyn yn y portread
ond, gan mai person swil a
thawedog yw Alun nid oedd,
efallai, am restru yr oll o'i
orchestion mynyddig wrthyf yn
y cyfweiliad a gawsom.

ROL WILLIAMS

DIWRNOD HWYL I'R TEULU

Cartrefi Cymunedol Gwynedd
Uned 6 a 7
Llys Castan
Parc Menai, Bangor

Annwyl Olygydd,
Hoffwn dynnu sylw eich
darllenwyr sy'n denantiaid i
Gartrefi Cymunedol Gwynedd i
ddau ddigwyddiad arbennig i'r
teulu sy'n cael eu cynnal yn
ystod gwyliau'r Pasg. Er mwyn
nodi blwyddyn ers sefydlu CCG
mae gwahoddiad i denantiaid i
Ddiwrnod o Hwyl i'r Teulu a
fydd yn cael eu cynnal yn
Nolgellau ac ym Mangor. Bydd

gweithgareddau o bob math i
blant ac oedolion ynghyd â
phaned a chacen a chyfle i
ennill beic. Bydd cyfle hefyd i
denantiaid weld y dewis o
gyflenwyr ceginau, ystafelloedd
ymolchi a systemau gwresogi
sydd ar gael iddynt.

Bydd Diwrnod o Hwyl i'r
Teulu yn cael ei gynnal yng
nghanolfan Hamdden Glan
Wnion, Dolgellau, ddydd Llun,
18 Ebrill rhwng 1 a 6yh ac yng
Nghanolfan Gymunedol Coed
Mawr, Bangor, ddydd Mawrth,
19 Ebrill rhwng 1 a 6yh.

Mae mynediad i'r diwrnod ac
i'r holl weithgareddau am ddim.
Os hoffech unrhyw gymorth
gyda thrafnidiaeth mae croeso i
chi gysylltu â ni ar 0300 123
8084

Yn gywir

GWENAN DAVIES
Swyddog Cyfathrebu Cartrefi
Cymunedol Gwynedd

DIOLCH AM YMGYRCH LWYDDIANNUS

Annwyl Etholwyr,
Rwyf am achub mantais o'r cyfle
hwn o ddiolch i bawb yn
nyffryn Gwyrfa'i fu'n gweithio
mor galed i sicrhau pleidlais IE
yn y refferendwm ar Fawrth
3ydd.

Dosbarthwyd dros 2,500 o
dafleni i ardalydd Rhyd Ddu,
Betws Garmon, Waunfawr a
Chaeathro i hyrwyddo'r achos.
Diolch i chwithau etholwyr
hefyd am sicrhau pleidlais mor
anrhydeddus.

Carwn nodi ein diolch yma
hefyd i Richard Tomos,
trefnydd lleol Plaid Cymru, am
gyd-lynu ymgyrch mor
effeithiol o swyddfa ganol y
Blaid yng Nghaernarfon.
Yn gywir iawn

EURIG WYN
(Cadeirydd Cangen Plaid
Cymru Waunfawr)

*Cofiwch gefnogi
ein hysbysebwy'r*



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch
â Gomer Roberts

Ffôn : 01286 870462

Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

RHODDION

£30: Hannah a theulu'r
diweddar Evan Bryn
Roberts, Tŷ'r Ysgol,
Dinorwig.

£25: Di-enw, Grantham

£20: Er cof am Brynley,
Trigfa, 23 Goodman St,
Llanberis; Mrs Doris
Roberts ac Elwyn, Fron
Oleu, Llanberis; Teulu'r
diweddar Alan Wyn Roberts,
Tan Dinas, Llanberis.

£19: Blodwen Williams,
Benllech; Marian Thomas,
Trawsfynydd.

£13: Gweryll McCarthy,
Childwall.

£15: Er cof am Now, Sydney
a Derek, Bro Rhyddallt.

£10: Olwen Ebrell, Coventry;
Eirian Jones, 11 Stryd
Newydd, Deiniolen; Beryl
Griffiths, 5 Maes Gwylfa,
Deiniolen.

£8: Emrys Owen, Solihull;
Ann Rhys Williams,
Croesoswallt; Arwyn
Thomas, Stourbridge; Nancy
Lovatt, Aberystwyth; Gomer
Davies, Tregarth.

£5: Jenny Davies,
Llangeitho; Alan Pritchard,
Cwm-y-glo; Owen Jones,
Llangefni; Bessie Williams,
Llanfairpwll; Dilys
Fouracres, Llundain; Mrs
Megan Humphreys, Is
Helen, Bethel; John Evans,
Pen Parc, Bethel; Christine,
34 Maes Padarn, Llanberis;
Mr a Mrs Gwynedd
Williams, 2 Bro Waun,
Waunfawr; Gwen Griffith,
Fron Deiniolen; Er cof am y
diweddar Mr Eifion
Williams, Rhydfadog,
Deiniolen.

£3: Ronnie Williams,
Aylestone.

£2: Kerry Lloyd Jones, 13
Dôl Afon, Cwm-y-glo.

APÊL: LLUNIAU CAPEL HEBRON

17 Maesyr Hafod, Porthaethwy
(01248) 712709.

Rwyf yn awyddus i weld lluniau
pensil o Gapel Hebron, Gwaun
cwm brwynog a gyfansoddwyd
tua'r 30au gan Henry Charles
Williams a John Roberts, Bryn
Coch gynt ar gyfer Eisteddfod y
Capel tua diwedd y 30au. Hoffwn
allu tynnu llun camera o'r
lluniau.

Yn gywir, JOHN DAVID WILLIAMS



Amgaeaf lun o'r adfeilion y capel
a dynnwyd rhyw 7 neu 10
mlynedd yn ôl.

AMGUEDDFA LECHI

Arddangosiad cyntaf yng
ngogledd Cymru o
Dyddiau Du
gan John Cale
25.3.2011 – 3.4.2011

Bydd *Dyddiau Du/Dark Days*, arddangosfa gan y cerddor John Cale sydd wedi ennill clod rhyngwladol, yn cyrraedd Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis y mis yma. O'r 25.3.2011 – 3.4.2011 bydd y gosodiad - sydd ar ffurf pedair episod ffilm dros bum sgrin - yn cael ei arddangos yn ffowndri'r amgueddfa.

Adnabyddir Cale - aelod gwreiddiol o'r *Velvet Underground* - fel cerddor, cyfansoddwr a chynhyrchydd sydd wedi arbrofi yn barhaus drwy gydol ei yrfa gan symud o un ffurf gelfyddydol i'r llall fel na ellir rhoi diffiniad union o'i ddull creadigol. Yn y gosodiad yma mae'n archwilio ei dreftadaeth Cymreig - gan gynnwys nifer o olygfeydd pwysig iddo ar draws Cymru - o'r Garnant yn Rhydaman, ble cafodd ei eni, i ddringo llethrau Chwarel Dinorwig yn Llanberis.

Wrth siarad am *Dyddiau Du* esboniodd John Cale: 'Roedd rhai darnau o'n nghefnidir nad oeddwn wedi delio â nhw oherwydd nad oeddwn wedi darganfod y maes gorau ar gyfer hynny. Y pwnc mawr i mi ydi sut y dois i golli fy iaith - a pham mai drwy'r Saesneg yr ydw i yn cyfathrebu ac nid trwy'r Gymraeg - sef yr iaith roeddwn yn siarad yn blentyn. Sais oedd fy Nhad - a nid oeddwn yn gallu siarad ag ef tan oeddwn yn saith oed oherwydd i fy Nain wahardd yr iaith Saesneg o'r tŷ.

'Danfonodd fy ffilmwr, sydd hefyd yn fynyddwr, ddarlun o Chwarel Dinorwig yn Llanberis, chwarel lechi oedd hefo canoedd o risiau ynddi. Meddyliais y byddai'n ddifyr i ddringo'r grisiau mor gyflym â



sy'n bosib a datgan, "Wnes i ddim byd, Mam" ar yr un pryd.

Wrth siarad am *Dyddiau Du* yn cyrraedd Llanberis, dywedodd Ceidwad Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis, Dr Dafydd Roberts: 'Rydym wrth ein bodd taw dyma'r lle cyntaf yng ngogledd Cymru y caiff gwaith arobryn Cale ei arddangos. Bydd yn brofiad unigryw i'n ymwelwyr gan gwmpasu diwydiannu, celf weledol a rhoi golwg ar ddiwydiant, diwylliant a threftadaeth Gymreig.'

Wedi ei gomisiynu yn wreiddiol gan Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer Gwyl Bienalle celf yn Fenis yn 2009, cyflwynwyd y gwaith i'r genedl drwy garedigrwydd hael yr artist a chefnogaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bu Cyngor Celfyddydau Cymru yn cydweithio ag Amgueddfa Cymru i fynd â'r gwaith ar daith a'i gyflwyno i'r genedl a chafodd ei lwyfan cyntaf yng Nghymru yn amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe yn 2010. Wedi iddo cael ei ddangos yn Amgueddfa Lechi Cymru, caiff ei arddangos yn haf 2011 fel rhan o agoriad yr orielau celf estynedig newydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Dywedodd David Alston, Cyfarwyddwr Celf Cyngor Celfyddydau Cymru: 'Fel comisiynwyr y gwaith ar gyfer Arddangosfa Eilflwydd Celf Fenis, mae'n bleser gennym weithio yn awr gyda Amgueddfa Cymru ar yr arddangosiad hwn

o'r gwaith yng Nghymru. Mae Cale yn artist o bwys rhyngwladol. Mae wedi creu gwaith aml-gyfrwng grymus sy'n ymdriniaeth ddofn o'i deimladau personol am Gymru a'i etifeddiaeth, ar ffurf lluniau symudol, synau, geiriau a cherddoriaeth syfrdanol.'

Dywedodd Cyfarwyddwr Addysg Rhaglenni a Datblygu Amgueddfa Cymru, Mike Tooby: 'Mae'r darn hwn yn siwrnai ryfeddol i John Cale. Mae'n galluogi iddo rannu â'i gynulleidfa y modd y mae cof a phrofiad yn ei gynorthwyo i

ddod i delerau â rhyw fath o ddychwelyd adref. Bydd y ffaith bod y gwaith yn ymuno â chasgliadau cenedlaethol Amgueddfa Cymru yn galluogi iddo gael ei ddangos yn y dyfodol, i nifer o bobl eraill. Bydd yn tyfu'n gymhariaeth ar y cyd o deithiau personol i, ac o Gymru.'

Bydd *Dyddiau Du/Dark Days* yn cael ei ddangos yn Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis o ddydd Gwener 25 Mawrth i ddydd Sul 3 Ebrill. Dangosir y gwaith yn ddyddiol o 10am-4pm.

Gobaith

Trwmpedau aur, syfrdanodd fardd,
gweld glan y llyn a'r coed fel gardd
a dawns obeithiol lluoedd hardd
o ddaear wael
y rhengoedd melyn, gwanwyn dardd
o'i môr ddi-ffael

Blodau Dewi hyfyddodd gell
sant Glyn Rhosydd, a'i hinsawdd well,
daeth neges wiw y dwyrain pell
i'r wlad a'i gwreng
yn obaith wedi'r hirlwm hell
hen fyd oedd ddreng.

Ond lluoedd mwy na glan y llyn
na llawr y coed na ochrau'r glyn,
os oedwn gam - cans yn y fan hyn
fe gyfyd ias
o law Duw - i'r neb a'i myn -
ar garreg las.

Rhain ydyw Lili'r Grawys prudd
yn paratoi am Wyl y Ffydd
Y Groes, y bedd - a thrydydd dydd
ein Haul a'n Llyw,
a gwres o'r fflam a gynn y gwŷdd
yn foliant byw.

NORMAN CLOSS

**DYDDIAU
DU**

John Cale
Y Ffowndri
Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis
Mawrth 26 - 3 Ebrill
Dangosiadau dyddiol
10yb-4yb (yr awr)

AM DDIM

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partiön rhwng 40 a 400!
* Cyda saws afal a siwffin mewn
rholliau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUŶ
Y DYD CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk



FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframio.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088**



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

CHWILOTA

ENWAU LLWYBR YR WYDDFA - A HEN DEULU



Addewais y mis diwethaf drafod un arall o doriadau papur newydd a dderbyniais gan Arvon Roberts o Bwllheli. Daw hwn allan o'r Gwyllydd am 1833 ac y mae'n disgrifio'r daith i gopa'r Wyddfa. Dyfynnwyd rhan o'r erthygl hon yn y llyfr *Hynafiaethau Plwyf Llanberis a'r Amgylchedd* gan William Williams, ond nid y cyfan ohoni. Enwir nifer o fannau wrth ddilyn y daith o'r Victoria Inn am gopa'r Wyddfa.

Roedd angen cychwyn "ar osgo hyd allt y Cyllhirbant i Gae'r lloiau". Mae'r llwybr hwn yn dal mewn bodolaeth heddiw, yn troelli trwy Goed Fictoria uwchben y Gellihirbant ac yn dod allan i'r ffordd ger Penceunant. Ond ble tybed roedd Cae'r lloiau?

Ymlaen wedyn ar hyd y ffordd yr âi "Sion ap Rhys Wynn gynt at ei dy." Y tŷ hwn oedd Tŷ Canol, Cwm Brwynog, rhywle yng nghyffiniau Cadair Ellyll. Oddi yno, rhaid oedd dilyn y llwybr heibio i Gadair Ellyll ac Adwy Gwynnyddog at y Nentydd Duon. Yna dal ar i fyny hyd at Adwy y Gors a Bwlch Cwm Gorllwyn. Dyna enwau hollol ddicithr i mi. Ble mae Adwy Gwynnyddog? Gwn fod tyddyn o'r enw Nant Ddu yng Nghwm Brwynog, ac efallai mai yn y cyffiniau rheini roedd y Nentydd Duon. Ond ble roedd Adwy'r Gors a Bwlch Cwm Gorllwyn? Yn anffodus, nid yw'r enwau'n ymddangos chwaith ar fap degwm plwyf Llanberis rhyw saith mlynedd yn ddiweddarach. O Fwlch Cwm Gorllwyn rhaid oedd dringo dros Fryn Penllyn ac ymlaen i'r copa.

Mae'n ymddangos mai hwn yw'r llwybr a ddcfnwyddir heddiw i gyrraedd copa'r

Wyddfa o Lanberis, ond fod y mwyafrif o gerddwyr erbyn hyn yn dilyn y ffordd yn hytrach na'r llwybr drwy Goed Fictoria.

Ond pwy oedd Sion ap Rhys Wynn o'r Tŷ Canol? Mab ydoedd i Rhys Wynn ap Meredydd a oedd yn frawd i John Wynn, a etifeddodd Stad Gwydir (a thaid i'r enwog Syr John Wynn).

Mae ewyllys Rhys Wynn wedi ei dyddio ar y 9fed o Ragfyr 1531, ac y mae'n dymuno cael ei gladdu o fewn eglwys blwyfol Llanberis. Gadawodd chwe swllt ac wyth geiniog tuag at gynnal adeilad yr eglwys a chant o syltau (sef pumpunt) i'r rheithor weddio dros ei enaid am gyfnod o flwyddyn. Gadawodd hefyd ddeuswllt i Eglwys Gadeiriol Bangor. Caiff nifer o bobl eraill eu henwi yn yr ewyllys, yn etifeddu anifeiliaid a dillad ar ei ôl. Mae ei frawd, John Wynn, yn cael ei geffyl gwyn, a'i frawd arall, Ieuan ap Meredydd, yn cael ei gleddyf a'i waywffon. Rheithor Llanberis, Syr Morgan ap Hywel sy'n etifeddu ei gyllell (dagr).

Roedd Rhys Wynn felly yn byw yn y Tŷ Canol yn ystod teyrnasiad Harri'r Wythfed, a cyn i hwnnw ddatgysylltu'r eglwys oddi wrth Rufain. Catholigion oedd trigolion y fro bryd hynny.

Priododd Rhys Wynn â Margaret ach Robert, aeres Llwynbedw, plwyf Llanberis. Roedd Stad Llwynbedw yn cynnwys y rhan fwyaf o fynydd Elidir a thiroedd ar waelod y dyffryn lle mae pentref Nant Peris heddiw. Nid yw Margaret yn cael ei henwi yn ei ewyllys, ond y mae Margaret verch Dafydd ap Eden, pwy bynnag oedd honno, yn cael pump buwch a cheffyl ar ei ôl.

Priododd y mab, Sion ap

Rhys Wynn ac Agnes, merch John ap Robert o Gastellmarch, a'u mab hynaf hwy, Humphrey ap Sion ap Rhys Wynn a etifeddodd y Tŷ Canol a Llwynbedw. Mae'n debyg i'r teulu symud i Gastellmarch i fyw, a Humphrey fu'n gyfrifol am werthu'r eiddo yn Llanberis i deulu'r Williamsiaid o'r Faenol. Mae'n rhyfedd meddwl y gallai Chwarel Dinorwig fod wedi dod yn eiddo i Stad anferthol Gwydir pe bai Humphrey wedi aros yn Llanberis!

Trydan i'r ardal

Pan oedd trydan yn dechrau cael ei ddosbarthu i wahanol bentrefi'r fro, mae'n ymddangos fod pawb yn ysu am ei gael cyn gynted â phosibl. Daeth llythyr gan Owen Jones, Llangefni, yn nodi i Ddeiniolen dderbyn cyflenwad trydan mor gynnar â mis Medi 1934. Roedd rasys cŵn defaid yn cael eu cynnal yn Neiniolen ar y Sadwrn olaf o'r mis hwnnw, a chyfarfod pregethu Capel Tabernacl y Sul dilynol. Roedd Owen Jones yn yr ysgol ganol leol ar y pryd.

Erbyn hyn, mae'n ddadl ynglŷn â pha ardal oedd y ddiwethaf i dderbyn trydan. Yn dilyn ymateb Ann Rhys Williams, Croesoswallt ynglŷn â chael cyflenwad trydan i Bontrug, daeth galwad ffôn gan Alwyn Jones, Racca, yn honni mai'r ardal o gwmpas Groeslon Racca oedd yr olaf i dderbyn cyflenwad, a hynny ar diwedd y 1950'au.

Yna'n dilyn yn fuan wedyn daeth llythyr gan Ieuan Williams, Bethel, yn adrodd ei bod yn 1957 ar ei ardal enedigol ef yn cael trydan, sef cylch yr Efail Newydd, rhwng Pontrhythallt a Phenisarwaen. Llys Iolen, ar yr allt o Bontrhythallt i fyny am Dan y Gaer oedd cartref Ieuan, ac yr oedd yn fis Medi 1957 ar y tai yn y rhan hon o'r fro yn cael trydan. Cafodd y gwaith weirio ei wneud gan Mr Jackie Jones o Glwt y Bont (tad Meirion Wyn Jones a fu'n ddirprwy yn Ysgol Brynrefail). Meddai Ieuan; "yr oeddwn wedi prynu set deledu

ymlaen llaw, un ail-law, gan fy nghefnder, Elfed Wyn, Tŷ Gwyn, Waun Penisa'rwaen. Un fechan 12 modfedd, ddu a gwyn oedd y set, ac yr oedd y derbyniad mor wael fel mai prin y gellid gweld y bêl oherwydd yr eira pan ddangosid gêm bel-droed. Y set hon, gyda llaw, oedd y gyntaf yn ardal Penisa'rwaen, a thyrrai nifer o bobl i gegin fechan Tŷ Gwyn pan fyddai rhyw achlysur go arbennig yn cael ei ddangos ar y teledu. Y coroni oedd un digwyddiad o'r fath."

Mae'r ddadl felly yn parhau. Oes yna ardal arall o fewn y fro a dderbyniodd drydan yn hwyrach na'r pumdegau? Ac, wrth gwrs, mae Ieuan Williams wedi codi cwestiwn arall fydd yn siŵr o greu dadleuon: gan bwy roedd y set deledu gyntaf yn y fro?

Mwy am T. Jones Parry, Dinorwig

Llythyr arall gan Enid Jones, Talsarn (Fachwen gynt) ynglŷn â'r bardd o Ddinorwig. Mae hithau'n hanu o deulu'r Clossiaid, a John Closs Parry, cefnder y bardd yn gefnder i'w thaid hithau hefyd. Ac fel Thomas Jones Parry, roedd ei thad, R.G. Roberts, Cae Canol, Fachwen, wedi dysgu llawfer Pitman yn Gymraeg. Yn y Beibl teuluol a'r llyfr emynau roedd llawer o bytiau o bapur mewn llawfer yn cofnodi cyhoeddiadau Capel Fachwen, a thestunau pregethau 'hoelion wyth' y cyfnod, megis Puleston Jones, R.H. Watkins ac R.O. Williams. Mae Enid Jones yn dal i fedru darllen y llawfer Gymraeg, ond yn tueddu i ddrysu rhywfaint, meddai hi, gan iddi orfod dysgu llawfer Saesneg tra'n gweithio i'r Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghaernarfon yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Llofrudd yn Lojin Grôt, Batri, Deiniolen

Gan Owen Jones, Llangefni y daeth y wybodaeth am y llofrudd a fu'n aros dros nos yn Neiniolen, a hynny, bellach, dros ganrif yn ôl. Mae'r hanes llawn yn cael ei gynnwys fel ysgrif mewn rhan arall o'r papur. Llauer o ddiolch i chwi am eich ymateb.

Ysgol Caeathro

Anfonwyd y ddau lun o "Caeathraw Board School" gan Miss Myra Thomas, Hen Golwyn. Yr unig wybodaeth sydd ar gael am y lluniau yw mai Thomas Owen Jones yw enw'r athro yn un o'r lluniau. Os oes unrhyw un â mwy o wybodaeth - unai am yr ysgol neu'r athro, yna cysylltwch.

"Heir Hunters"

Tybed faint ohonoch sy'n dilyn y rhaglen hon am Gwmniau Profiant sy'n chwilio am deuluoedd pobl a fu farw heb wneud eu hewyllys. Roedd cysylltiad lleol ar un o'r rhaglenni diweddar. Chwilio am dculu gwraig o Devon oedd

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: 08444 119 004

CERIS JONES

Teglan,
Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979620996

- Trwsio ceir a faniaw
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol



testun y rhaglen, a darganfod fod nain iddi wedi priodi ym Metws Garmon cyn symud yn ôl i'r Alban i fyw ac yna mudo eto efo criw o fugeiliaid i ymsefydlu ar Exmoor. Cyfenw'r teulu ym Metws Garmon oedd Johnson, ac yr oedd bugail o'r enw hwnnw yn byw ar fferm Garreg Fawr ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Cynllun Casglu Hen Luniau
Cafodd y cynllun gychwyn calonogol yn ystod Gŵyl Ffilmiau Mynydd Llanberis, gyda gwahoddiad gan amryw i

ddod i'w cartrefi i wneud copiau o hen luniau. Os oes unrhyw un yn awyddus i gyfrannu lluniau tuag at y cynllun, yna cysylltwch â mi neu â Gareth Roberts (01286 872462)

A dyna'r cyfan am y mis hwn. Diolch i bawb am eu hymatebion prydlon. Os oes unrhyw ymholiad neu unrhyw hanes am ddigwyddiad o'r gorffennol, cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515).

Ffŵl Ebrill

'Roedd 'na eliffant mawr yng Nghoed-y-Bryn
Y bore 'ma,' meddai Sam,
Roedd o'n gorwedd o dan y dderwen,
O ble daeth o, ys gwn i, a pham
Y mynnodd o aros yng Nghoed y Bryn?
Eliffant pinc hefo dau ddant gwyn.'

'Eliffant pinc?' gofynnais yn syn,
'O dan y dderwen yng Nghoed y Bryn?'
Ac yno yr euthum yn frysio fy ngham
A rhyw wên ddircidus ar wyncb Sam.

Cerddais am oriau o dan y codd
Ond welais i mo'no na ôl ei droed,
Ac adre yr euthum yn araf fy ngham
Ac yn ddigon siomedig, i ddweud wrth Mam
Fel y chwiliais am oriau yng Nghoed-y-Bryn
Am eliffant pinc hefo dau ddant gwyn.

'Rel Sam,' meddai Mam, gan chwerthin yn iach,
'Mae'n gyntaf o Ebrill heddiw, Wil bach.'



CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

REFERENDWM 2011.
Roedd y canran o'r etholwyr yng Nghaeathro a bleidleisiodd yn y Refferendwm ar 3 Mawrth yn 54%. Y ffigwr ar gyfer Gwynedd gyfan oedd 43%, ac ar gyfer Cymru gyfan, dim ond yn 36%. Mae'n ddiddorol cofio fod pobl ar draws y byd Arabeg yn gwrthryfela er mwyn ennill yr hawl i bleidleisio!!

Y M D D E O L I A D .
Llongyfarchiadau i Peter Evison, Cae Hopcyn, ar ei ymddeoliad o'i swydd fel Prif Faint-fesurydd Cyngor Gwynedd. Dim yn unig ymddeol, ond hefyd yn cael gwyliau estynedig gyda'i wraig yn ymweld â'u merch, Catrin, yn Awstralia.

M A R W O L A E T H .
Cyddymdeimlir ag Alison a'r teulu, Drws y Coed, ar farwolaeth Mrs Margaret Lovell yn ddiweddar.

TYNFA MISOL. Enillwyr mis Mawrth oedd: £40: (31) Dilys a Bryn Griffiths, Delfryn; £25: (35) Norman Hughes, Llyngelc; £15: (15) Tŷ'r Ysgol; £5: (8) Wyn Williams, Bodwyn.

NEWYDDION Y CAPEL.

Bwriedir cynnal y canlynol ar y Sul yn ystod mis Ebrill:

3: 11. Ysgol Sul
2.00: Oedfa dan arweiniad y gweinidog, y Parch

Marcus Wyn Robinson

10: 11.00 Ysgol Sul

17: 2.00 Mr Dafydd Iwan

25: 10.00 Oedfa'r Pasg

Croeso i bawb, yn arbennig ar Sul y Pasg.

PWYLLGOR APÊL
EISTEDDFOD YR URDD

2012. Cafwyd Cyngerdd eithriadol o lwyddiannus ar 10 Mawrth i roi hwb i'r apêl uchod a gwnaed elw o £417. Diolch i'r holl artistiaid am noson mor ragorol a safonol. Gwerthfawrogwn gyfraniad pawb a fu'n cynorthwyo i sicrhau noson mor wych.

Rhaghysbysiad:

1. Gem bêl-droed rhwng aelodau cast *Rownd a Rownd* a Hogiau Lleol ar Sadwrn, 18 Mchefin am 2.00 o'r gloch yng Nghae Chwarae Ceathro.

2. Pacio yn Archfarchnad Morrisons, Caernarfon ar Sadwrn, 2 Gorffennaf.

Edrychwn ymlaen i'ch cefnogaeth.



Blodau Lieneke

Blodau Priodas
Priodferch
Lleoliad • Byrddau

Cae Rhyddau Pontrug
Caernarfon LL55 2TN

Symudol 07510 511 631

Gwefan- <http://www.blomstervill.no>
E-bost- blomstervill@robin.no



BOSCH Service

Car Service

BOSCH Service **OFT**

www.a-y-w.co.uk

01286 673559

GIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD

SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO

ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN

CEIR, CAMPERS A FANIAU

AVW BOSCH Car Service

E-BOST YR ECO! ecorwyddfa@gmail.com

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CYMDEITHAS LENYDDOL. Cyfarfu'r aelodau o dan lywyddiaeth y Dr. J. Elwyn Hughes y mis yma a chroesawyd pawb ynghyd gan estyn croeso arbennig i'r siaradwr, sef y Dr. Llion Jones, Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr, Bangor. Wrth ei gyflwyno cyfeiriodd y Llywydd iddo ennill cadair Eisteddfod Llanelli yn y flwyddyn 2000. 'Golwg ar ddyddiaduron T. H. Parry Williams' oedd testun y ddarlith a chafwyd hanes dwy daith a gyflawnodd y Bardd, - y gyntaf i Dde America ym 1925 ac yna deng mlynedd yn ddiweddarach i Ogledd America. Cyfoethogwyd y cyfan gyda enghreifftiau o lais y Bardd yn darllen rhai o'i gerddi a chyfweliad gydag Aneurin Talfan Davies, yn ogystal â lluniau prwpasol i gyd fynd â'r ddarlith.

Diolchwyd yn gynnes iawn i'r siaradwr gan Dafydd Williams ac yna bu i bawb fwynhau paned a sgwrs cyn mynd oddi yno.

Dosbarthwyd taflen bwyd y swper pen tymor i bawb oedd yn bresennol, a gofynnir yn garedig i chi eu dychwelyd i Nora Parry neu Sheila Roberts erbyn Ebrill 12fed. Rhowch wybod hefyd os oes angen cludiant arnoch.

DIOLCH. Dymuna Megan Humphreys, Is Helen, Tregof, ddiolch o waelod calon i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am yr holl garedigrwydd tuag ati ar ôl ei damwain yn ddiweddar.

Mae Nerys Owen, yn diolch o galon i gyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da yn dilyn ei gwaeledd a'i chyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dymuna John Evans, Pen Parc, ddiolch yn fawr i'r teulu a ffrindiau am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth yn ystod ei waeledd diweddar. Diolch

arbennig i staff wardiau Tryfan a Glyder, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal caredig ac i Feddygfa Bron Sciont Caernarfon.

Er cof am Collwyn Williams, hunodd Mawrth 14, 2011
Dydd ei angladd, Mawrth 19, 2011 yn Capel y Cysegr

Ein rhodd i bawb yw'n gwreiddiau hwn yw'n prawf fod bro'n parhau. O'i oriau ymysg gwerin caed gŵr praff, caed geiriau prin. Nid y rhwysg ond gwneud ei ran; ei ddyled, Dolwyddelan.

Hwyl cynnar Vale of Conway âi ar dramp o'r wlad i'r dre, yn ei breim ar gaeau brwyn "Colli!", no way medd Collwyn. 'Run cyfarth â'r un cyfoes, i'r giang, hwn oedd Fergi oes. Mewn bwrllwm, eu cwm, eu cae agos o hyd yr hogiau.

Mewn braw, arweinydd tawel, mwy na swydd, rhaid mynnu sêl drwy y tân, gwarchodi'r tŷ caed dynion yn cyd-dynnu. Enillodd barch llu'r gwarchod yn ŵr clên, heb fynnu'r clod.

Yn ei dŷ brenin o dad di-guro led ei gariad. Cariad oes oedd it, Rita, i'r angor tynn, i'r dyn da.

I'r plant trosglwyddir mantell i gario'r gwaith, i greu'r gwell. O daid, i dad i blant daeth olwynion yr olyniaeth. Yn eich eur clywch eco cân o'r aelwyd, un yw'r Elan.

RICHARD LLWYD JONES

CLWB BRO BETHEL. Yr Ysgol oedd man cyfarfod i'r aelodau ym mis Mawrth, a hynny ar wahoddiad y Pennaeth, Mrs Nia Guillemin a'r Staff. Dathlu Gŵyl Ddewi oedd yr achlysur gyda holl blant yr Ysgol yn cymeryd rhan mewn cyngerdd o safon uchel iawn i ddiddanu pawb.

Cafwyd citemau llafar, offerynnol, dawnsio a chanu a'r

cyfan yn ymwneud â hanes Dewi Sant, gyda phob plentyn yn rhoi o'i orau. Yn ogystal â'r cyngerdd roedd y plant hynaf wedi paratoi te blasus i bawb, ac fel gwerthfawrogiad o'r cyfan cyflwynwyd rhodd ariannol i'r Ysgol.

Diolchwyd yn gynnes iawn

i'r Pennaeth a'i Staff gan y Prifardd Selwyn Griffith, yn gyntaf am y gwahoddiad, ac yna am yr holl baratoi o flaen llaw.

Bydd y cyfarfod nesaf brynhawn Mawrth, Ebrill 5ed. yn Festri Bethel am 2.00 gyda Mair Price, Caernarfon yn annerch.

UN FUNUD FACH BOD YN DDIDWYLL

Dim ond deunaw gair ddywedodd o, ac roedd dau o'r rheiny'n rhegfeydd! Wna i ddim cyfieithu'r rheiny. 'Os daliwn i wneud hyn, fydd gennym ni ddim i anghytuno amdano yn y ddadl deledu.' Nick Clegg ddywedodd y geiriau wrth David Cameron, heb sylweddoli nad oedd wedi tynnu'r microffon y bu'n ei wisgo ar gyfer sesiwn cwestiwn ac ateb mewn ffatri yn Nottingham yr wythnos ddiwethaf. Roedd y Dirprwy Brif-weinidog wedi cytuno â'r Prif Weinidog wrth ateb pob cwestiwn a ofynnwyd iddynt. Ond roedd cael ei ddal yn gwneud y sylw ysgafn yn dipyn o embaras i aelodau ei blaid sydd eisiau pwysleisio'r gwahaniaethau sydd rhwng y Rhyddfrydwyr a'r Ceidwadwyr. Gallwch fentro y caiff y darn hwn ei ailddarlledu sawl tro cyn yr Etholiad Cyffredinol nesaf pan fydd Mr Clegg yn ceisio rhoi'r argraff bod gwahaniaethau mawr rhwng ei bolisiau ef ac eiddo Mr Cameron. Ddywedodd rhywun rywdro mai gêm yw gwleidyddiaeth? Sylw ysgafn oedd o, wrth reswm, ond fe all ei gwneud hi'n fwy anodd yn y man i Mr Clegg ein perswadio bod byd o wahaniaeth rhwng ei blaid ef a phlaid Mr Cameron. Onid ydi'r ddau'n cytuno ar bopeth bron yn ôl cyfaddefiad Mr Clegg ei

hun? A gall hyn fod yn rhybudd hefyd i bawb ohonom sydd am geisio dweud unrhyw beth am y Ffydd Gristnogol. Mae didwylledd yn holl bwysig. Mae'n rhaid i bobl fedru ymddiried yn yr hyn a ddywedwn. Unwaith y caiff pobl yr argraff mai gêm yw'r cyfan i ni, mae ar ben arnom. Mae gan bobl hawl i ddisgwyl ein bod yn credu'r hyn a ddywedwn!

Mae angen didwylledd yn yr hyn a gredwn ac a ddywedwn, ond hefyd yn yr hyn ydym. Pa ryfedd os yw pobl yn ein hanwybyddu ni a'n neges os rhown yr awgrym lleiaf iddynt nad ydym yn gwbl dididwyl ein ffydd a'n bywyd Cristnogol? Nid byw'r bywyd Cristnogol yr ydym am ei fod yn ein siwtio ni i wneud hynny ar hyn o bryd. Nid cyhoeddi'r Efengyl a wnawn am fod rhaid i ni wrth rywbeth i'w ddweud. Rydym yn byw fel hyn ac yn cyhoeddi'r pethau hyn am fod y Ffydd rywsut wedi ein meddiannu ni'n llwyr. Neu felly y dylai fod o leiaf. A phan wêl pobl nad oes symud na throi arnom am fod y pethau hyn yn fywyd i ni, bydd gobaith efallai iddynt ddechrau cymryd ein tystiolaeth o ddifrif. 'Dyw didwylledd ddim yn bopeth, wrth gwrs, gan fod modd bod yn dididwyl ac yn anghywir! Ond er hynny, mae'n gwbl hanfodol.

JOHN PRITCHARD

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'statell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Stôf Draddodiadol neu FODERN i gynhesu eich tŷ

CYSYLLTWCH Â



JOHN HUGHES a'i FAB
IARD LO · Carmel · Gwynedd
01286 882160

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m.-3 p.m. (Sul)

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

DYMUNA Gwen Griffith, Fron, ddiolch i'w theulu a ffrindiau am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn ei phrofedigaeth drist o golli ei annwyl chwaer, Olwen, ym Mhorthmadog. Diolch am bopeth ac yn arbennig am y rhoddion hael i gronfa Nyrsus Macmillan ac Apêl Sganiwr Ysbyty Alltwen. **DYMUNA** teulu'r diweddar Mr Eifion Williams, 31 Rhydfadog, ddiolch i bawb am y llu cardiau, rhoddion a'r caredigrwydd a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn eu colled fawr. Diolch yn arbennig i'r Gweinidog, y Parchedig John Pritchard, ac i Dylan Griffiths am drefniadau'r angladd.

DYMUNA Eirian Jones, 11 Stryd Newydd, ddiolch o waelod calon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu holl garedigrwydd tuag ati ar ôl ei damwain yn ddiweddar.

DYMUNA Jennie Williams, 1 Rhydfadog, ddiolch yn ddifffuant i'w phlant a'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl ymweliadau, cardiau a galwadau ffôn tra y bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod gartref.

Dymuna hefyd ddiolch i'r meddyg, Robin Parry, a holl staff Meddygfa Deiniolen a Llanberis am eu cymorth. Diolch o galon i chwi i gyd.

MERCHED DEINIOLEN A'R CYLCH. Os oes gennych ddiddordeb mewn Cadw yn Heini dewch i Dŷ Elidir rhwng 7 ac 8 o'r gloch ar nos Fercher.

Croeso i ferched o unrhyw oedran.

PLYGU'R ECO. Tro Deiniolen fydd hi i blygu rhifyn nesa'r Eco (mis Mai) ar 28 Ebrill yn Festri Ebeneser o 5.00 o'r gloch ymlaen. Byddwn yn ddiolchgar am bob cefnogaeth a geir i helpu gyda'r plygu.

DOSBARTHUR ECO. Gofynnir unwaith eto am wirfoddolwr neu wirfoddolwyr i

fod yn gyfrifol am ddosbarthu'r Eco i ddosbarthwyr unigol y pentref.

Siomedig iawn fyddai peidio gallu dosbarthu'r Eco i'r pentref, felly mi fyddwn yn ddiolchgar iawn o gael cymorth gyda'r gwaith yma.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL.

Roedd nifer dda o aelodau yn bresennol i wrando ar sgwrs Mr Gareth Jones, Llanberis, am fywyd a gyrfa gerddorol David Lloyd, 'Y Melys Lais'. Soniodd am rai o ganeuon David Lloyd a chlywsom ambell gân oddi ar y cryno ddisgiau sydd ar gael o'r llais enwog. Llywyddwyd y noson gan y Parchedig John Pritchard.

Cydymdeimlodd â theulu'r diweddar Mr Eifion Williams, Rhydfadog a fu farw'n sydyn ddechrau'r flwyddyn.

Diolchwyd i Gareth gan Mr John Ll. Williams.

DYMUNA Beryl Griffiths ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 96 mlwydd oed, ac hefyd diolch i'r staff yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri am eu gofal caredig yn ddiweddar.

PWYLLGOR APÊL EISTEDDFOD YR URDD 2012. Cynhaliwyd noson Gymreig i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar Fawrth y cyntaf, gyda pherfformiadau gan blant Adran Bentref yr Urdd Deiniolen, Miriam Hopkin a Seindorf Arian Ieuencid Deiniolen.

Cafwyd noson lwyddiannus iawn gyda phawb wedi mwynhau yr adloniant a'r baned a theisennau cartref. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r noson.

Bydd aelodau'r pwyllgor yn dod o amgylch y pentref yn ystod yr wythnosau nesaf gyda amlenni cyfrannu at yr eisteddfod. Byddwn yn ddiolchgar am bob cefnogaeth.

LLWYDDIANT MAWR I AELWYD BENTREF NEWYDD. Llongyfarchiadau i holl blant Adran Bentref yr Urdd Deiniolen a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch yn Ysgol Brynrefail ar 12 Mawrth. Cafodd yr Adran lwyddiant mawr gyda'r Parti Cerdd Dant a'r Parti Canu yn dod yn gyntaf, a'r Parti Llefaru yn dod yn drydydd. Enillodd Osian Hughes y wobr gyntaf am Adrodd yn unigol a'r drydedd wobr am Ganu yn unigol.

Pob lwc i bawb yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor.

Dymuna'r plant a'r rhieni ddiolch yn fawr i Lyndsey, Eleri ac Eirlys am eu hyfforddi.

DA IAWN TI, Catrin Llewelyn am ddod yn drydydd yn Eisteddfod Cylch Uwchradd yn y gystadleuaeth Unawd Piano i flwyddyn 7, 8 a 9.



Osian a gafodd gyntaf am adrodd a trydydd am ganu



Plant Adran yr Urdd Deiniolen yn y Cyngerdd ar y Noson Gymreig ar Ddydd Gŵyl Dewi gyda chyfeillion o Seindorf Arian Deiniolen.



Parti Cerdd Dant a Pharti Canu Adran Bentref yr Urdd Deiniolen.



Plant Adran Bentref yr Urdd Deiniolen a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod.

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROO-Y-WAEN PENISARWYN

Cwaith Corrig Boddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Corffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL-07778127394)



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrraeddych Mewn Steil Mewn Gerbyd *Rolls Royce*
AR CYFER PRIODASAU. PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

LLOFRUDDIAETH GWEN ELLEN PARRY

Roeddech yn holi yn yr *Eco* (rhifyn 383, Rhagfyr 2010) a oedd unrhyw wirionedd yn y stori fod yna lofrudd wedi bod yn cysgu yn y 'lojin grôt' a arferai fod yn 'Batri', Deiniolen lawer blwyddyn yn ôl.

Mae awdur y llyfr, sef y ddiweddar Gracie Owen, yn crybwyll y digwyddiad yn ei llyfr '*Cofio Deiniolen*' (tudalen 32). Mae'r hanes cywir yn dra gwahanol i'r hyn sydd yn y llyfr, a hefyd i'r fersiwn sydd yn y llyfr gwlad. Mae'n eithaf posibl fod y lofrudd wedi cysgu noson yn y 'Lojin grôt' oedd yn 'Batri' rhyw bythefnos ynghynt, gan ei fod wedi cerdded o Gaergybi i gartref y ferch ym Methesda i geisio cael hyd iddi. Byddai mynd trwy Ddeiniolen yn llai o ffordd iddo na cherdded trwy Fangor. Yng Nghaergybi y lofruddiodd ei gymar, ac nid, fel y dywedid yn y llyfr, ar ffordd fynyddig rhwng Deiniolen a Bethesda.

Roedd yn noson Nadolig 1909 ac, er gwaethaf y tywydd gwlyb, roedd nifer o bobl Caergybi yn dathlu ar strydoedd y dref. Ymysg y dorf roedd gŵr o'r enw William Murphy, ond go brin ei fod ef wedi ymuno yn rhialtwch y noson, gan fod ganddo bethau llawer mwy difrifol ar ei feddwl.

Gwyddel oedd Wiliam Murphy, ac roedd yn 49 oed ar y pryd. Arferai deithio o le i le gan weithio yn achlysurol fel labrwr pan oedd y gwaith ar gael. Ychydig cyn deg o'r gloch y noson honno trodd Murphy i mewn i dafarn y Bardsey Inn yn Newry Street, Caergybi, ac archebodd beint o gwrw. Gwelodd y wraig oedd tu ôl i'r bar fod ei wyneb yn un o gripiadau a'i ddwylo a'i ddillad wedi eu gorchuddio mewn gwaed. Pan ofynnodd y wraig iddo o ble y daeth yr holl waed, dywedodd ei fod wedi bod yn ymladd gyda dau ddyn. Nid oedd yna le i gredu nad oedd yn dweud y gwir, gan fod llawer o ymladd yn mynd ymlaen ar adegau felly, gan fod nifer o ddynion wedi bod yn yfed yn ormodol.

Ar ôl yfed peint arall o gwrw, cerddodd yn ôl i'w llety yn 51 Baker Street, Caergybi. Gofynnodd i un o'r lletywyr eraill o'r enw John Jones, oedd yn fwy adnabyddus fel Johnnie Fflamiau, os wnaï o fynd i gyrchu un o'r heddwision. Meddai hwnnw wrtho, 'Nid wyt yn ddigon meddw i mi fynd i nôl y rheini heno.' Atcodd Murphy fod beth yr oedd wedi ei wneud yn llawer gwaeth ac anogodd Johnnie Fflamiau i'w ddilyn. Aeth y ddau tros ben

wal gefn y llety ac ar draws y cae oedd yng nghefn y tŷ i'r fan a adwaenid fel Walthew Avenue.

'A wyt yn adnabod Gwen Ellen Jones?' gofynnodd William Murphy, gan gyfeirio at wraig 35 oed a adwaenid yn lleol fel 'Watercress'. Roedd Gwen newydd ddod i letya i 51 Baker Street, Caergybi, sef yr un fan ac yr oedd Johnnie a Murphy hefyd yn letya. 'Dyna hi yn y fan yna,' meddai Murphy, gan bwyntio at ffoes ddofn oedd yn llawn o ddŵr, ac wedi ei hagar ar gyfer gosod carthffos i'r tai newydd oedd yn cael eu hadeiladu ar y safle. Pan welodd y corff yn y dŵr, cafodd Johnnie Fflamiau gymaint o fraw fel y bu iddo redeg yr holl ffordd yn ôl i Baker Street gan weiddi 'Mwrdwr'. Cyhoeddodd i bawb a welai fod 'Watercress' wedi ei lofruddio gan William Murphy. Erbyn hynny roedd Johnnie yn wirioneddol ofni Murphy, gan iddo weld yr anfadwaith roedd y gŵr hwnnw wedi ei gyflawni y noson honno.

Ar ôl magu digon o hyder, aeth Johnnie Fflamiau yn ôl i'r dref a galwodd yng ngorsaf yr Heddlu, ond gwelodd fod Murphy wedi achub y blaen arno. Pan glywodd pobl y dref y newydd trist am Gwen, sobrodd y dyrfa trwyddynt a daeth y dathlu i ben. Aeth yr Arolygwr Protheroe i chwilio am gorff Gwen Ellen Jones a dilynwyd ef gan dyrfa enfawr. Pan ddarganfuwyd ei chorff nid oedd unrhyw amheuaeth beth fu ei thynged. Roedd Gwen wedi ei thagu, ac roedd archoll ddofn ar draws ei gwddf.

Ganwyd Gwen Ellen Parry ym Methesda, a phriododd gyda gŵr o'r enw 'Jones' o Lanfairfechan, ond gadawodd ef a mynd i fyw gyda William Murphy. Buont yn byw gyda'i gilydd am rai blynyddoedd a ganwyd iddynt un mab. Nid oes unrhyw wybodaeth beth a ddigwyddodd i'r mab. Pan wnaeth Gwen adael William Murphy, aeth i fegera o amgylch y wlad a bu yn gwneud hynny am gyfnod. Bu yn cyfeillachu wedyn gyda gŵr arall, eto o'r enw Jones, am ryw chwe wythnos cyn ei marwolaeth.

Ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf bu William Murphy yn gweithio yng ngorsaf trên Caergybi a dyna'r cyfnod y datih i adnabod Gwen Ellen Jones ac y dechreuodd fyw gyda hi. Dychwelodd Gwen a'i chydymaith 'Jones' i Gaergybi ym mis Tachwedd 1909, a chawsant le i aros yn y llety yn 51 Baker Street. Wythnos cyn y Nadolig daeth William Murphy, oedd wedi bod ar grwydr o amgylch y wlad ac wedi bod yn

chwilio am Gwen, i'r un llety a phle yr oedd Gwen yn aros. Roedd y ddau yn dadlau'n ffyrnig yn gyson ac ailgymodi bob yn ail. Arferai Murphy ei bygwth pan oedd Gwen yn gwrthod mynd yn ôl i fyw gydag ef.

Y tro diwethaf y gwelwyd hwy oedd pan yr oeddynt yn cerdded i fyny Wynne Street yn canu a gweiddi, ac roedd yn amlwg fod y ddau wedi meddwi ond yn eithaf hapus yng nghwmni ei gilydd.

Digwyddodd yr anfadwaith ar nos Sadwrn Nadolig 1909, ac ar y bore Llun canlynol ymddangosodd Murphy o flaen ynadon Caergybi. Disgrifiodd yr Arolygwr Protheroe fel y bu i Murphy gyrraedd gorsaf yr heddlu ac yn ddiweddarach fel y darganfuwyd corff yr ymadawedig. Cadwyd Murphy yn y ddalfa tan y trydydd o Ionawr 1910. Ni fu i Murphy ailymddangos o flaen yr ynadon wedi hynny.

Agorodd Mr Jones Roberts, Crwner Ynys Môn, y cwest ar weddillion Gwen Ellen Jones ar y dydd Mawrth, a daeth y rheithgor i'r penderfyniad mai achos bwriadol o lofruddiaeth ydoedd ac mai Murphy oedd yn gyfrifol am hynny.

Mewn dau ddiwrnod a hanner ar ôl i'r corff gael ei ddarganfod ymrwymwyd Murphy i ymddangos yn y cwrtym Miwmares ar 26 Ionawr 1910.

Dywedodd Mr Ellis Griffiths MP ar ran yr erlyniad fod Murphy wedi ymweld â chartref rhieni Gwen bythefnos cyn y Nadolig, gan ei fod yn awyddus i gael hyd iddi. Dywedodd wrth ei thad y byddai yn lladd Gwen pe buasai yn ei gweld yng nghwmni dyn arall. Roedd ei thad yn 69 mlwydd oed ac mor dlawd fel nad oedd ganddo ond crystyn sych ar gyfer ei ginio'r Nadolig hwnnw. Roedd wedi camarwain Murphy yn fwriadol, yn y gobaith na chawsai hyd i'w ferch, ond wythnos yn ddiweddarach daeth Murphy ar ei thraws yng Nghaergybi.

Mae lle i gredu fod Murphy a Gwen wedi trefnu i weld ei gilydd yn Nhafarn y Bardsey Island, sydd bellach yn Siop Sglodion Tatws, a gwelwyd y ddau yn cerdded i gyfeiriad glan y môr. Mewn datganiad hir a manwl a wnaeth Murphy i'r heddlu, dywedodd eu bod mewn cae ple yr oedd carthffosiaeth yn cael ei osod ar gyfer estyniad i Walthew Avenue. Gofynnodd i Gwen paham na fyddai yn tynnu'r 'mwff' oedd ganddi o gylch ei gwddf. Dywedodd hithau ei fod wedi ei fachu oddi tano, a

chododd Murphy ei law fel pe bae am ei chynorthwyo. Yn lle dadfachu'r mwff cydiodd yn ei gwddf a'i thagu. Ar ôl i Gwen ymlonyddu, rhoddodd hi ar draws ei liniau a thorrodd ei gwddf â chyllell. Yna rhoddodd hi tros ei phen yn y ffos, a daliodd ei hwyneb o dan y dŵr.

Gofynnodd y barnwr i Mr Austin Jones ymgymryd â'r swydd o amddiffynnydd yn yr achos. Dywedodd ef nad oedd gan Murphy unrhyw fwriad i ladd, ond ei fod wedi gweithredu ar ryw gymhelliad sydyn ac nid oedd hynny yn weithred y byddai dyn yn ei iawn bwyll yn ei wneud. Tri munud yn unig gymerodd y rheithwyr i ddyfarnu ei fod yn euog o lofruddiaeth. Rhoddodd y barnwr ei gap du ar ei ben gan ddweud nad oedd unrhyw reswm nad oedd yn ymwybodol o beth oedd yn ei wneud.

Roedd yn arferiad i ganu cloch Eglwys Santes Fair Caernarfon bob tro y byddai rhywun yn cael ei grogi yng Ngharchar Caernarfon ond yn achos Murphy, dwy donc yn unig a glywyd gan y dyrfa oedd wedi ymgynnull ar gyfer yr achlysur. Tybiai rhai o'r dorf fod Murphy wedi cael pardwn ar y funud olaf. Ymhen ychydig amser, fodd bynnag, clywyd sŵn 'trap door' y grocbren yn clepian a gwyddai pawb fod Murphy wedi cael ei haeddiant.

Dienyddwyd Murphy ar y 15fed o Chwefror 1910 yng Ngharchar Caernarfon ac ef oedd y deuddegfed i gael ei grogi yn y dref. Pan dynnwyd yr hen garchar i lawr i wneud lle i bencadlys newydd Cyngor Gwynedd, gwelwyd nodiadau ar un o'r waliau am y man ple claddwyd ei weddillion. Yr ysgrif ar y garreg oedd 'W.M. 15.2.10 3ft N.E.'. Ail gladdwyd ei weddillion mewn bedd di-enw ym mynwent gyhoeddus Caernarfon. Ef oedd y diwethaf i gael ei grogi yn y dref.

OWEN JONES

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

PLAID CYMRU. Enillwyr Clwb Cant Mawrth oedd: 1. Enid Williams; 2. Phyllis Ellis. **SEFYDLIAD** COFFA.

Enillwyr Clwb Cant Chwefror oedd: 1. M Parry, Wenlllys; 2. S. Williams, Glyn Afon; 3. J. Jones; 4 Disgwylfa.

Enillwyr Mawrth oedd: 1. S Williams, Glyn Afon; 2. L. Jones, 3. E. Jones, Talybont.

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, Mawrth 8fed, aeth nifer dda o aelodau i ddathlu Gŵyl Ein Nawddsant yng Nghlwb Golff Caernarfon. Cafwyd cyfle i gymdeithasu'n hamddenol a dymunir diolch i staff y Clwb Golff am yr arlwy. Diolch hefyd i Gwenda a Meirwen am y trefniadau trylwyr.

Anfonwyd cofion cynnes at ein Llywydd Anrhydeddus, Mrs Whiteside Thomas.

Bu rhai o'r aelodau yn y Gweithdy Celf yn Nhregarth a chafwyd diwrnod bendithiol iawn.

Dydd Llun, 30 Mai, cynhelir **Wawrathon** yn Eisteddfod yr urdd Abertawe. Bydd cynlywyddion yn darllen llyfrau am 12 awr a gofynnir yn garedig am nawdd.

Dymunir derbyn llyfrau raffl Sioe Llanellwedd erbyn cyfarfod Ebrill os gwelwch yn dda.

Llongyfarchiadau mawr i Ann Thomas a Phyllis Elis ar Y Llyfr Lloffion graenus a swmpus am y flwyddyn 2009-10. Mae'n braf cael trem yn ôl ar y nosweithiau difyr a gafwyd - gweithgareddau at ddant pawb.

Enillydd Raffl y noson oedd Myfanwy Parry.

Nos Fawrth, 12 Ebrill, edrychir ymlaen at gwmni Ann a Gomer Davies - dau sydd wedi 'Gwirioni ar Rew'.

DIOLCHIADAU. Fe ddymuna Veronica ac Allan Owen, 4 Rhos Rug, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion, ynghyd â'r Meddygon Teulu, Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Walton, Lerpwl, am yr holl garedigrwydd a gofal arbennig a dderbyniodd Veronica yn dilyn llawdriniaeth.

Mae yn gwella yn araf erbyn hyn. Diolch yn fawr unwaith eto.

BABIS NEWYDD.

Llongyfarchiadau mawr i Wendy a Myfyr Parry, Stad Nant y Glyn, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd merch fach, Ena Ceris, i Ceris a Dewi. Pob dymuniad da i chi i gyd.

Llongyfarchiadau i Iddon a Carys Williams, Afon Rhos ar enedigaeth Gwern. Mae'n frawd bach i Erin Awei ac Ynyr Iddon. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

PEN BLWYDD hapus iawn i Ceri Jones, Eryri, Ffordd yr

Orsaf. Bydd yn dathlu ei phen blwydd yn 90 oed ar Ebrill y 4ydd. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da iddi.

PRIODAS AUR

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Mai a Gwyn Davies, Ffordd yr Orsaf ar ddathlu eu Priodas Aur ar Mawrth 25ain. Pob dymuniad da am lawer blwyddyn arall i'r ddau ohonoch.

PROFEDIGAETH. Ar ôl gwaeledd eithaf byr, bu farw Gwynfryn Lloyd, 4 Rhos Plas Tirion yn 71 mlwydd oed. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant i'w weddw, Valerie, y plant, Kevin a Katren a'u teuluoedd bach, yn ogystal â'i frodyr a'i chwiorydd.

Person unigryw iawn oedd 'Lloyd', fel y'i gelwid gan bawb. Person hapus a direidus a chanddo lawer iawn o ffrindiau yn yr ardal gyfan. Bydd colled fawr i'r teulu a'i ffrindiau.

Hefyd bu farw Mr Jac Mathers, Brookfield, Ffordd Glanffynnon yn 91 mlwydd oed. Roedd wedi cael gofal gartref ac yn yr ysbytai lleol a'r Foelas, a chafodd garedigrwydd gan y Gofalwyr Cartref. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei ferch, Sue a Dave, a Rebecca a Sophie, ei wyresau.

PEL BONWS YR URDD 2012 Mawrth 5 - Avril Jones, 14 Minffordd, Rhif 49

Mawrth 12 - John Roberts, Bedw Gwynion, Rhif 40

Mawrth 19 - Linda Jones, Pant Mwyn, Rhif 17

E I S T E D D F O D GENEOLAETHOL YR URDD 2011

Bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2012 yn cael ei chynnal ym Mharc Glynllifon. Mae nifer o weithgareddau wedi'u trefnu gan Bwyllgor Apel Cwm y Glo a Llanrug. Cynhelir cyngerdd yn Ysgol Brynrefail ar nos Iau, Mai 5ed am 7 o'r gloch. Ceir eitemau gan blant y ddwy Ysgol Gynradd ac Ysgol Brynrefail. Pris tocynnau fydd £3 i oedolion a £1 i blant gan gynnwys tocyn raffl. Dewch i gefnogi os gwelwch yn dda.


Bydd Gŵyl Gyhoeddi'r Eisteddfod yn cael ei chynnal yng Nghaernarfon ar ddydd Sadwrn, Ebrill 9fed. Bydd hwn yn ddathliad arbennig gyda nifer fawr o weithgareddau difyr ar gyfer pob oed.

Mae amlenni penodol ar gyfer rhoddion ariannol yn cael eu casglu o gwmpas Llanrug a Chwm y Glo. Gofynnir yn garedig i bawb eu dychwelyd i Meirwen Lloyd cyn diwedd mis Ebrill.

Bwriedir trefnu 'Tro drwy'r Gerddi' ryw ddydd Sadwrn ddechrau'r haf. Y syniad yw

CAPEL Y RHOS

Bowlio Deg. Bu cystadlu brwd rhwng hogia a genod hynaf yr Ysgol Sul yn ddiweddar. Cawsant noson hwyliog yn bowlio deg yng Nglasfryn. Trefnwyd eu bod hefyd yn cael swper ar ôl y gemau. Diolch i Anti Delyth a hogia Blwyddyn 6 am ofalu am y trefniadau. Mae'r criw rŵan yn edrych ymlaen yn eiddgar at eu hymweliad blyneddol â Choleg y Bala.



Rhai o Bl 5 a 6 yr ysgol Sul y mwynhau y trip a drefnwyd gan y bechgyn i barc Glasfryn. Y genod fydd yn trefnu'r trip nesaf.

Bore Coffi. Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus iawn yn Festri Capel y Rhos fore Sul, Mawrth 20fed. Trefnwyd y bore gan Rhian Whiteside Thomas er mwyn codi arian at elusen Myasthenia Gravis (Salwch y Ddoli Glwt); sef yr elusen y bydd Rhian yn ei chefnogi ym Marathon Llundain ar Ebrill 17eg. Hoffai Rhian ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ymarferol ac ariannol. Casglwyd £220 ar y bore.



gwahodd pobl i'r ardd a threfnu paned, stondin werthu, raffl neu rhywbeth cyffelyb. I wncud y fenter yn llwyddiant, dylem gael oddeutu deg neu ddwsin o crddi. Mary Roberts, Bedw Gwynion fydd prif drefnydd y

diwrnod ond wrth gwrs fe fyddai yn falch iawn o gael enwau pobl i'w helpu. Os ydych yn fodlon agor eich gardd am awr neu ddwy, cysylltwch â Mary ar 01286 675605. Fe gewch fwy o fanylion ar ôl y Pasg.

O'R CYNGHORAU

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr yn y Ganolfan, Waunfawr am 7.15 yh ar 23 o Chwefror 2011. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

Materion Caeathro - Dim mater wedi ei godi.

Materion Waunfawr - Trafodwyd mater y coed ger y gofeb yn y pentref, wedi derbyn cadarnhad mai'r Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am y darn tir a bod 'tree preservation order' ar y coed, felly ni allwn wneud dim â hwy. Angen gofyn am gadarnhad o hyn.

Llochesau bws - nodwyd fod y lloches bws ger yr hen bost dal angen ei beintio ac angen sylw yn fuan. Lôn Gwyrfa (ffordd beics) yn cael ei ymestyn i mewn i'r pentref yng Nghroes y Waun, golyga hyn y bydd y lloches bws yn cael ei ddymchwel.

Mewn trafodaethau pellach gyda Cyngor Gwynedd.

Y fynwent - adroddwyd fod rhan o'r wal yn y fynwent wedi disgyn a bod defaid wedi gwneud llanast yn y fynwent. Hefyd, derbyniwyd lythyr o gŵyn yn dilyn agor bedd yno yn ddiweddar yn ystod y tywydd garw. Mae'r mater wedi ei ddwyn i sylw yr ymgymerwyr lleol i gymryd gofal yn y dyfodol.

Llwybrau troed y pentref - Derbyniwyd gohebiaeth gan aelod o'r Cyhoedd oedd wedi bod yn cerdded llwybrau yn y pentref yn ddiweddar yn canmol cyflwr y llwybrau. Diolchwyd iddynt am eu geiriau caredig.

Gerddi Bach - Aelodau o'r Cyngor Cymuned wedi cyfarfod â'r Adran Gynllunio yn ddiweddar i gychwyn trafod yr opsiynau yn ymwneud â Gerddi Bach. Bydd cyfarfod arall yn cael ei drefnu yn fuan.

Nid oedd unrhyw gais cynllunio

newydd i law i'w drafod yn y Cyfarfod.

Nid oedd cais cynllunio wedi derbyn cymeradwyaeth gan Gyngor Gwynedd.

Materion eraill a godwyd yn ystod y cyfarfod:-

- Nodwyd cyflwr y ffyrdd yn yr ardal yn dilyn y tywydd garw dros y Gaeaf.

- Nodwyd fod sbwriel a baw cŵn yn Gerddi Bach ac ar y llwybr cyhoeddus. Gofynnwn yn garedig i bawb godi eu sbwriel ac i lanbau a'r ôl eu cŵn a'i roi yn y bin cyfagos ar y groesffordd os gwelwch yn dda. **Safle Peblig** - Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn pam nad yw'r Cyngor Cymuned yn Waunfawr yn cael mewnbwn ynglŷn â dyfodol safle Peblig gan fod rhan o'r safle ym mhlwyf Caeathro.

Rhestr Etholwyr - Ffurflen ar gael i'w llenwi gan y rhai hynny nad ydynt ar y Rhestr Etholwyr yn barod.

Yn dilyn derbyn llythyr di-enw wedi ei gyfeirio at Gadeirydd y Cyngor Cymuned yn ddiweddar gofynnwn yn garedig i bawb anfon unrhyw ymholiad at Glerc y Cyngor wedi ei arwyddo yn glir os gwelwch yn dda.

Adroddiadau o'r Cyngorau Cymuned

Gofynnir yn garedig i'r rhai sy'n gyfrifol am anfon adroddiadau o

weithgareddau'r gwahanol gyngorau cymuned lleol, i gyfyngu'r maint i ddim mwy na hanner tudalen. Os bydd yr adroddiadau yn hwy na hynny, yna byddant yn cael eu cwtoegi.

Amlinellir o drafodaethau a phenderfyniadau'r cyngorau sydd eu hangen nid copïau llawn o'r holl gofnodion.

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed o Chwefror penderfynwyd:

- Derbyn logo newydd a ddarparwyd gan Gareth Roberts ar gyfer y Cyngor.

- Gofyn eto i Swyddog Coed Cyngor Gwynedd fynychu cyfarfod o'r Cyngor Cymuned.

- Tynnu'r enw 'Snowdon' oddi ar y cyfarpar newydd yng nghae Glanmoelyn.

- Hysbysu Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd:

- fod giât mochyn sydd yn arwain at lwybr cyhoeddus ym Mharc Minffordd wedi'i difrodi yn dilyn damwain car diweddar.

- fod angen gosod stepan newydd ar ddechrau'r llwybr

ger Cae Glas am ei fod bellach mor serth.

- Diolch i Gyngor Gwynedd am glirio sbwriel yn y gymuned a tynnu eu sylw at rannau eraill o'r gymuned sydd angen eu glanhau, ee safle garej Hafod a Ffordd Glanffynnon, Llanrug, a'r ardal ger y biniau ailgylchu yng Nghwm y Glo.

- Rhoddir y grantiau canlynol: Cylch Meithrin Llanrug: £700 Llewod Llanrug: £700 Y Sefydliad Coffa: £2,000

Peidio a rhoi mwy o grantiau eleni heblaw am y grantiau a gyllidebwyd eisioes.

- Hysbysu Cyngor Gwynedd am dwll mawr sydd yng nghanol y ffordd ger Tai Gerddi yng Nghwm y Glo.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Y wraig wadd yng nghyfarfod mis Mawrth o'r gangen leol oedd Mrs Nan Parri, Caernarfon.

Cafwyd adroddiad diddorol ganddi o'i chysylltiad ag ynys Enlli drwy deulu ei nain.

Roedd wedi olrhain hanes y teulu ymhell yn ôl a dangosodd luniau o'r Ynys, yr adeiladau ac aelodau o'r teulu yn ystod y sgwrs.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddi am noson bleserus dros ben ac am iddi ddod i gymryd lle ei phriod y Parch Harri Parri a oedd yn anffodus methu bod yn bresennol. Gobeithir yn fawr cael ei gwmni ef yn y dyfodol. **PEN-BLWYDD ARBENNIG.** Llongyfarchiadau i Eirlys Williams, Marino, ar dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

Y GYMDEITHAS. Mac rhaglen lawn a diddorol o'r Gymdeithas wedi ei threfnu ar gyfer Tymor 2011 gan yr Ysgrifennydd, Mr Dafydd Ellis, Gweledfa.

I gyfarfyddiad cyntaf tymor 2011 trefnwyd i ymweld â Theatr Seilo, Caernarfon.

Bu'n chwith gennym am yr ymweliadau blynyddol i basiantau 'Cymdeithas y Gronyn Gwenith' a ddaeth i ben yn lled ddiweddar ac felly llawenydd oedd deall fod nifer o'r actorion wedi penderfynu ailgydio i berfformio unwaith eto.

'Rhyfel Pen Llŷn', comedi ar ffurf drama lwyfan gan Harri Parri oedd y cynhyrchiad ac er fod stori' Rhyfel Pen Llŷn' yn un i'w chofio a'i anghofio, cafwyd gwledd o hiwmor iach a gwir fwynhad yn Theatr Seilo ar noson ein hymweliad.

OEDFAON EBRILL

Yr oedfaon oll am 5.30 yh.

3: Mr Dafydd Iwan, Caeathro
10: Parch John Owen, Bethesda

17: Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon

24: **SUL Y PASG** Y Parch Reuben Roberts, Bontnewydd. Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.



ORIEL CWM Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol
2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswiriad a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pŵn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i
hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn
cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw
(Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a
Llunopio) ac ar yr ym pryd i gwmni busnes lleol (Unedau Busnes
Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hon Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban Cyf

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

DIOLCH. Dymuna Kerry, 13 Dôl Afon, ddiolch i'w theulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 21 oed

LLONGYFARCHIADAU i Dylan Roberts, 22 Dôl Afon, ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 50 oed. Dymuna Dylan ddiolch i'w deulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd. Diolch arbennig hefyd am y parti annisgwyl.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Julie, 23 Dôl Afon, ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac i Liam, sydd wedi cael anaf i'w goes wrth chwarae pêl-droed. Hefyd i Tom, 2 Rhes Bryn a gafodd anaf i'w lygaid, hefyd wrth chwarae pêl-droed.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Anne, Tai-Craig y Don sydd wedi symud i Ysbyty Eryri gan ddymuno gwellhad buan iddi.

YSGOL CWM Y GLO

Cafodd disgyblion dosbarth Marchlyn ddau ddiwrnod bendigedig yng Nghanolfan

Rhyd Ddu dan ofal Morfudd, Cemlyn, Miss Barlow, Miss Jones a Mr. Jackson. Cyrhaeddodd pawb yn ôl brynhawn Gwener gyda bochau cochion mawr – wedi blino'n lân ond wedi llwyr fwynhau! Diolch yn fawr i bawb.

Ein llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn eisteddfodau'r Urdd yn ystod y mis. Eleni roedd gennym nifer fawr o blant yn cystadlu – dawnsio gwerin, dawnsio disgo, partion a chorau canu yn ogystal â chriw brwdfrydig o unawdwy. Miss Jones sydd wedi bod wrthi yn eu hyfforddi a braf yw gweld y beirniadaethau calonogol a llwyddiant y plant. Ymlaen yn awr i Eisteddfod y Sir ym Mangor!

Bu'r Cyngor Ysgol yn brysyr yn trefnu diwrnod o hwyl i gasglu arian ar gyfer Diwrnod Trwynau Coch. Da iawn i bawb (gan gynnwys y staff) am droi allan yn eu gwisgoedd ffansi ac ymuno yn yr hwyl! (Roedd 'na si bod 'James Bond' wedi cael ei weld, hyd yn oed!!)



H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig



Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr
hoffech ei drafod gyda'ch **AS**
mewn cymhorthfa, yna
cysylltwch ag ef yn ei
swyddfa yng Nghaernarfon
neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



Alun Ffred Jones

Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr
hoffech ei drafod gyda'ch **AC**
mewn cymhorthfa, yna
cysylltwch ag ef yn ei
swyddfa yng Nghaernarfon
neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Cofiwch gefnogi ein hysbysebwy

YSGOL BRYNREFAIL

GWEITHDY IECHYD MEDDWL

Mae iechyd meddwl da yn mynd tu hwnt i fynediad i wasanaethau iechyd. Mae gwell canlyniadau iechyd ar gyfer plant yn galw am ffocws ar hybu iechyd a sylw i ffactorau amgylcheddol yn ogystal ag anghenion iechyd corfforol, emosiynol ac iechyd. Mae angen i blant wybod sut i gyrchu gwasanaethau ac i gael yr wybodaeth a'r sgiliau i gyfathrebu a chysylltu gydag eraill a chymryd cyfrifoldeb drostynt eu hunain.

Dyna oedd diben y gweithdai a gynhaliwyd ar gyfer pob dosbarth ym mlwyddyn 8 yn



Ysgol Brynrefail ym mis Chwefror.

Bu Ms Elin Saunders, Tîm Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (Bangor) a Ms Dawn Jones (Cymorth i Ferched) Bangor yn cynnal gweithdai ac yn delio gyda materion sy'n effeithio iechyd meddwl ac yn annog disgyblion i rannu eu

dealltwriaeth o faterion sy'n gysylltiedig, megis bulimia, hunan-niwed, hunan gamdriniaeth a chamdriniaeth o alcohol, a'r rhesymau paham y mae rhai pobl yn cam-drin ei gilydd.

Cafwyd ymateb da gan flwyddyn 8 a gyfrannodd yn hael i bob trafodaeth.

GWERSYLL GLAN LLYN

Gohebydd: Lisa Hughes

Ar ddydd Gwener 21ain o Ionawr 2011 aeth grŵp o flwyddyn 7 o Ysgol Brynrefail i wersyll Glan Llyn a chael llawer iawn o hwyl yno. Ar y ffordd ddaru ni bigo grŵp o blant o Ysgol Porthmadog.

Ar ôl cyrraedd yno aethom i gael swper ac wedyn gwneud ychydig o weithgareddau yn y neuadd cyn mynd i'r gwely wedi blino yn racs.

Y bore wedyn ddaru ni godi am hanner awr wedi saith cyn mynd i nôl brecwast am wyth o'r gloch. Ar ôl brecwast roedd hi'n amser i wneud gweithgareddau rhaffau tan amser cinio.

Ar ôl cinio roedd hi'n amser i adeiladu rafft wrth ochr y llyn ac mi roedd hi'n oer iawn. Ar ôl adeiladu'r rafft mi ddaru ein grŵp fentro ar y llyn ac er i ni wlychu ddaru ni ddim suddo! Cyn bron i ni gael amser i sychu a chynhesu roedd yn rhaid cerdded i chwilio am rifau a cherdded trwy'r mwd i gyd.

I orffen y gweithgareddau am y diwrnod rhaid oedd mynd yn ôl ar y llyn mewn canŵ. Roedd yn rhaid i mi roi fy mhen dan y dŵr ac roedd yn oer iawn. Erbyn y diwedd yr oedd fy mhen a fy mhen ôl yn socian!!!

Erbyn hyn yr oeddwn yn llwgu ac yn barod am swper ac ar ôl swper cwis cyn diweddur dydd gyda disggo. I'r gwely a hithau'n un-ar-dddeg o'r gloch ac yn syth i gysgu.

Codi am hanner awr wedi saith y bore wedyn ac ar ôl brecwast sydyn amser nofio yn y pwll nofio a gwneud gweithgareddau grwpiau yn y



dŵr.

Wedi'r nofio roedd hi'n amser am y wal dringo a llu o blant yn ymgeisio cyrraedd y top.

Pacio cyn cinio ar gyfer y siwrne adref, ffarwelio a dechrau am y siwrne hir yn ôl i Frynrefail. Er i mi fwynhau pob munud yr oeddwn yn falch o gysgu'r noson yn fy ngwely fy hun...



Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

GWERSYLL GLAN LLYN

Gohebydd: Math Roberts



Roedd pawb yn edrych ymlaen at gael mynd i Glan Llyn ar ddydd Gwener 21ain Ionawr 2011. Fe ddechreuodd ein taith ni am bump o'r gloch y pnawn hwnnw. Roedd pawb yn disgwyl gyda'u bagiau y tu allan i'r Ysgol. Fe gychwynnodd y bws am y Bala. Roedd pawb wedi blino erbyn cyrraedd, ond roeddwn i'n dal yn llawn cyffro. Roedd rhaid i bawb gyfarfod yn y neuadd er mwyn cael ein rhannu i'n hystafelloedd. Roedd rhan fwyaf o'r bechgyn yn 'Bloc y Berwyn' a'r genod yn y 'Plas'. Roedd pawb yn rhedeg i fyny ac i lawr i weld ystafelloedd ei gilydd. Fe ganodd y gloch ac fe aethom am swper.

Ar ôl swper fe aethom i'r gampfa i chwarae gemau bach i basio amser. Doedd dim llawer o gysgu'r noson gyntaf. Roedd pawb yn cael hwyl ac yn rhedeg ac yn bwyta pob math o fferins ond doedd y staff ddim yn rhy hoff o hyn!


Yn y bore fe gawsom ein rhannu i mewn i wyth grŵp. Fe gafodd pawb bum gweithgaredd dydd Sadwrn a thri dydd Sul. Fe gawsom ni siawns i ddringo, canŵio, adeiladu rafft, cyfeiriannu, bowlio a llawer mwy. Y gweithgaredd roedd pawb yn hoffi oedd canŵio er bod dŵr y llyn yn ofnadwy o oer i'r plant hynny gafodd eu gwlychu.

Nos Sadwrn roedd yna ddisgo mawr. Fe gafodd pawb hwyl yn dawnsio, canu a gweiddi. Roedd pawb wedi blino yn ofnadwy'r noson honno a disgynnodd pawb i gysgu yn syth.

Erbyn y Sul roedd y rhan fwyaf wedi colli eu llais ond gawsom ni dal hwyl yn gwneud y tri gweithgaredd olaf. Fe adawsom ni'r gwersyll ar ôl cinio ond nid dyna'i diwedd hi. Roedd pawb yn cael hwyl ar y bws ar y ffordd adref. Mae pawb yn diolch yn fawr iawn i staff y gwersyll a'r athrawon a ddaeth efo ni i'r gwersyll.

BWRDD YR IAITH
CYMRAEG - WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

PENCAMPWR GYMNASTEG SBOTOLAU

ar
Jamie Stevens



Y mae Jamie Stevens yn bencampwr gymnasteg. Bu'n gohebydd yn chwys domen yn cadw i fyny a fo.

Ers pa bryd wyt ti di bod â diddordeb mewn gymnasteg?

Wel, mi ddechreuais pan oeddwn yn bedair mlwydd oed yn y Ganolfan Hamdden leol cyn ymuno gyda Chlwb Gymnasteg Eryri yn wyth oed.

O'r dechrau cynnar rwyf wedi bod yn canolbwyntio ar 'twmblo'.

Do a dechrau cystadlu'n frwdfrydig ar ôl cyrraedd Ysgol Brynrefail. Yn gyntaf enillais y

gystadleuaeth sirol a mynd i gynrychioli'r sir ym Mhencampwriaeth Cymru.

A cael hwyl arni?

Wel, fi oedd Pencampwr Twmblo Cymru dan 13 a chefais fy lle yn nhîm Gymnasteg Cymru ac wedi aros yn y tîm ers hynny. Rwy'n rhan o'r tîm cenedlaethol sy'n cystadlu yn erbyn gwelydd Iwerddon, Yr Alban a Lloegr.

I gyrraedd y safon uchel yma mae'n debyg bod angen ymarfer cyson?

Erbyn hyn rwy'n mynychu sesiynau ymarfer yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy am dair awr bob nos Fawrth o dan lygad barcud Ernie Cookson a Joy Sumner, hyfforddwyr Cymru. Ydi mai'r ymarfer yn galed ac yn gofyn am ddyfalbarhad.

Gyda'r Gymnasteg yn cymryd cymaint o amser mae'n debyg nad oes gennyf lawer o amser i ddiddordebau eraill?

Wel, dwi'n chwarae pêl-droed yn safle'r cefnwr chwith gyda thîm pêl-droed Ysgol Brynrefail, Tîm Pêl-droed Ieuencid Caernarfon ac ail dîm pentref Llanrug yng nghynghrair Caernarfon a'r Cylch.

A'th ddyfodol?

Mi fyddwn wrth fy modd cyrraedd tîm Prydain ac efallai cystadlu dros Gymru yn Chwaraeon y Gymanwlad

GWEITHDY GWRTH HILIAETH

Yn ddiweddar bu disgyblion blwyddyn 8 yn mynychu Gweithdy Gwrth Hiliaeth yng nghwmni Sebastian Korszon, sydd yn wreiddiol o wlad Pwyl ond sydd yn awr yn gweithio gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru. Cynlluniwyd y gweithdy gwybodaeth yma i ddiwallu anghenion gwahanol gynulleidfaoedd, er enghraifft, Llciafrifoedd Croenddu ac Ethnig, Asiantaethau statudol, y sector gwirfoddol a'r cyhoedd. Trwy gyfres o weithdai cafodd pob disgybl gyfle i:

• Ddarganfod am wahaniaethau

hiliol, aflonyddu hiliol, camdriniaeth a thrais


• Ddarganfod am eu hawliau.

• Rhoi gwybod am ddigwyddiadau a ysgogir gan hiliaeth

• Edrych am ffynnonellau gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth

• Herio hiliaeth.

Bu trafodaethau doniol, dolurus a digri trwy'r bore gyda phawb yn unfryd ar ddiwedd y bore eu bod wedi mwynhau cyfraniad Sebastian er bod cynnwys y cwrs yn o ddyrys ar brydiau.



Sebastian Korszon, Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru

YSGOLORIAETH I BEN



Ar fore dydd Llun, 14eg o Fawrth 2011 fe ddaeth newyddion gwych i Ysgol Brynrefail. Cafodd Ben Jones, Dirprwy Prif Fachgen, y newydd gwych ei fod wedi ennill Ysgoloriaeth gan Brifysgol Bangor. Bwriad Ben yw astudio Gwyddoniaeth Chwaraeon ac fe gafodd y wybodaeth bod Prifysgol Bangor wedi dyfarnu £3,000 iddo tuag at gostau ei astudiaethau.

Yn ogystal ag astudio Astudiaethau Busnes, Addysg Gorfforol a Saesneg ar gyfer ei lefel A y mae Ben yn gôl-geidwad dawnus sydd, ar wahân i dim pêl droed yr Ysgol, yn chwarae i dim ieuencid Caernarfon ac yn nhîm cyntaf pentref Llanberis yng Nghynghrair y Welsh Alliance.

Dymuna pawb yn Ysgol Brynrefail ei longyfarch.
Hogyn Brynrefs - da 'de

ARTIST PRESWYL YN YR AMGUEDDFA LLECHI



Rowena Williams, ein artist preswyl wrth y cwt crwn 'Cae Mabon'

Llwyddodd Adran Gelf Ysgol Brynrefail i ennill grant gan Asiantaeth Gelfyddydol Gwynedd a Môn i benodi'r artist Rowenna Williams i weithio gyda Blwyddyn 8 ar brosiect yn datblygu sgiliau dysgu disgyblion. Thema'r prosiect oedd 'Llyn Padarn Drwy'r Oesau' ac roedd yn ddatblygiad o waith diwrnod sgiliau ym Mlwyddyn 7 pan fu adrannau Cymraeg, Daeryddiaeth a Chelf yn cydweithio gyda Dafydd Whiteside Thomas, gan glywed chwedlau a hanesion am gewri a Thylwyth teg yr ardal. Gwnaed gwaith pellach yn ystod yr wythnos Draws gwricwlaidd yn yr Haf, lle bu cydweithio clos gyda Heather Jackson, swyddog addysg yr Amgueddfa lechi ar y pryd. Cafodd dau ddosbarth ym Mlwyddyn 8 dridiau yr un allan o'r ysgol ym mis Tachwedd i weithio ar y prosiect yma.

Cyflwynodd Ken Latham y syniad o gynnaladwyach a thrafodwyd pwysigrwydd y goedlan dderw ar yr anifeiliaid a'r planhigion prin a'r pysgod

a'r dŵr yn Llyn Padarn. Edrychwyd ar y Môr o Lechi, Celf Tirlun gan Howard Bowcott wedi ei leoli o flaen Ysbyty'r Chwarel fel man cychwyn i'r disgyblion ystyried gwneud darn o gelf tirlun yn adlewyrchu cynnaladwyach eu hamgylchfyd.

Arweiniwyd y disgyblion gan Rowenna Williams ein Artist Preswyl drwy'r goedlan dderw tuag at Gae Mabon lle cafwyd taith o amgylch yr adeiladau unigryw. Gwelwyd dulliau traddodiadol o greu adeiladau fel Hogan, benywaidd a gwrywaidd, Tŷ crwn o fwd, tŷ Crwn Celtaidd a nifer helaeth o esiamplau o bensacriacth gynnaladwy. Roedd y toiledau gwrtaith yn berthnasol iawn wrth ystyried cynnaladwyach a chadw dŵr y llyn yn lân a heb algae. Cyflwynodd Rowenna Williams y disgyblion i labyrinth oedd wedi ei adailadu yng Nghae Mabon.

Parhad ar dudalen 15

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YSGOL GYMUNED

Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod y Llyfr. Daeth y plant i'r ysgol mewn gwisg Gymreig a dod â'u hoff lyfr. Yn ogystal mwynhawyd cinio blasus wedi ei baratoi gan Anti Carolyn.

Ymweliad. Ar 4ydd o Fawrth aeth llond bws o blant dosbarth Mrs Ray i Archfarchnad Morrisons yng Nghaernarfon i holi gweithwyr y siop am gynnyrch Masnach Deg. Cawsant gyfle i ofyn cwestiynau i aelod o'r staff cyn mynd o gwmpas y siop i edrych yn fwy manwl ar y cynnyrch. Cafwyd cyfle i holi ambell gwsmer hefyd.

Llwyddiant. Bu'r ysgol yn llwyddiannus iawn yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail ddydd Sadwrn,

12 Mawrth. Cafwyd pedwar cyntaf gyda'r Côr, parti Deulais, Parti Unsain a'r Gân Actol. Bu Magi yn llwyddiannus gyda'r llefaru unigol Bl 5 a 6 gan ddod yn gyntaf a Catrin Alaw yn ail gyda unawd, a daeth y parti llefaru yn ail. Rydym yn hynod falch ohonynt ac am y gwaith caled yn ymarfer mewn byr amser. Dymunwn y gorau iddynt yn yr Eisteddfod Sir yn Neuadd Pritchard Jones, Bangor ddydd Sadwrn, 26 Mawrth. Diolch i bawb a fu'n brysur yn hyfforddi'r plant ac i'r rhieni am eu cydweithrediad bob amser.

Talebau Tesco. Mae'r ysgol yn casglu Talebau Tesco o rŵan tan mis Mai. Gofynnir yn garedig am eich cydweithrediad.



EGLWYS SANTES HELEN.
GWASANAETHAU'R PASG
Nos Iau Cablyd. 7.00yh
Gwasanaeth Undebol i blwyfi Llanfairisgaer, Llanddeiniolen a Phenisarwaun yn Eglwys St Mair, Y Felinheli.

Gwener y Groglith, Ebrill 22
am 2.00yp Gwasanaeth yn Santes Helen.

Dydd Sul y Pasg, 24 Ebrill
Gwasanaeth o'r Cymun Bendigaidd am 11.00yb. Estynnir croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau dwyieithog yma. *Addurno'r Eglwys.* Fe fydd yr Eglwys yn cael ei haddurno ar gyfer Sul y Pasg yn dilyn gwasanaeth y Groglith. Derbynnir yn ddiolchgar flodau neu gymorth gyda'r gwaith.

Gyrfaodd Chwist. Mae nifer o bobl sydd yn dod i chwarae chwist yn ddiweddar wedi cynyddu. Mae croeso i rai newydd ymuno ar unrhyw aded, neu os dymuna rhywun ddechrau dysgu, mac croeso i chi ddod draw i'r neuadd ar nos Fawrth i gael hyfforddiant. Cynhelir y Gyrfaodd bob nos Fawrth am 7.30yh. **Dawnsio Llinell.** Cynhelir Dawnsio Llinell yn Neuadd yr Eglwys bob nos iau am 7.30yh.

Cic Bocsio. Mae clwb Cicio

Bocsio Dinorwig yn awr yn cael ei gynnal yn Neuadd yr Eglwys bob nos Wener am 7.00yh. Mae'r clwb yn croesawu unrhyw un sy'n dymuno cael gwersi er mwyn ymuno.

PWYLLGOR Y CARNIFAL.
Noson Ffilmiau. Fe gynhelir noson Ffilm yn neuadd yr Eglwys nos Fercher, 30 Mawrth. Yn ystod y noson derbynnir enwau ar gyfer pawb sydd eisieu cystadlu i fod yn Frenhines y Carnifal.

6.30yh Ffilm i'r plant lleiaf: *Despicable Me*
8yh Ffilm i'r plant hŷn ac oedolion: *Paul*.
Mynediad £1 i blant a £2 i oedolion, neu'r ddwy ffilm am £1.50 i blant a £3 i oedolion. Fe fydd cŵn poeth a siop ar gael ar y noson.

DISGO. Fe gynhelir Disgo yn Neuadd yr Eglwys nos Fercher, 13 Ebrill am 6.30yh. Yn ystod y noson yma fe fydd Brenhines y Carnifal yn cael ei dewis a chyhoeddir ei henw.

GWEITHGAREDDAU'R CARNIFAL. Fe gynhelir y gweithgareddau eleni o O'rffennaf 4 hyd 10fed. Bydd manylion pellach i'w cyhoeddi yn rhifyn nesaf yr Eco.

PWYLLGOR NEUADD.

Tynnwyd Clwb 100 Mawrth a'r ddau enillydd yw: Osian Dafydd, Braichmelyn a Jean Jones, 24 Bryntirion.

Cynhelir Pwyllgor ar nos Lun, 9 Mai am 7.30 i drefnu gweithgareddau pellach.

E I S T E D D F O D GENE D L A E T H O L YR URDD 2012. Cynhelir pwyllgor nos Lun, 9 Mai am 7.00. Gobeithio y caiff aelodau Urdd yr ysgol noddwyr haelionus ar y daith gerdded yn Ebrill. Cynhelir yr Eisteddfod ar dir Glynllifon.

EISTEDDFOD BENTREF.
Cynhelir Noson Goffi nos Iau, 12 Mai, am 6.30 yn y Neuadd Gymuned. Bydd cyfle i rannu Testunau'r Eisteddfod a gynhelir nos Wener, 1 Gorffennaf.

GWELLHAD. Ein cofion anwylaf at bawb ohonoch sydd wedi bod yn sâl. Gobeithio fod Mrs Peggy Mathews, Freshwinds, yn gwella wedi'r driniaeth i'w phen-glin yn Ysbyty Gwynedd. Ein dymuniadau gorau hefyd i Gareth Fôn Jones, Pennaeth yr Ysgol Gymuned, wedi'r anaf i'w ben yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion at Eurgain Jarvis, Bethel (Bryntirion gynt) wedi ei thriniaeth hithau yn yr ysbyty.

YSGOL SUL BOSRA.
Croesawyd dau aelod newydd i'r ysgol Sul, sef Branwen ac Ella. Gobeithio y byddant yn hapus fel yr aelodau ffyddlon eraill. Mae amser prysur o'u blacnau gyda dwy gymanfa, yr Annibynwyr Cylch Dciniolen a Cwm y Glo yn y Neuadd Gymuned bawn Sul, 22 Mai am 2.00 o'r gloch ac yna ym

Mehefin yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon. Mae eu dwylo'n brysur rŵan yn canolbwyntio ar weithgareddau'r Pasg. Gobeithir cael trip ar drên bach Llyn Padarn yn ystod Gŵyl y Pasg.

PEN-BLWYDD ARBENNIG.
Llongyfarchiadau i Dic Parry, Tawelfa, ar gyrraedd oed arbennig ar 31 Mawrth. Bydd cenedlaethau o blant Ysgol Brynrefail yn cofio amdano fel Dic PE ac yn dra diolchgar iddo am eu hysbrydoli. Pob dymuniad da oddi wrth pawb yn y pentref a Bro'r Eco.

HIWMOR SY'N PLESIO PLANT.
Llongyfarchiadau i Haf Roberts, Gwyddfor ar ei llyfr 'Bob o Chwith'. Mae'n dweud hanes Bob O'Chwith, dyn bach sy'n gwneud popeth o'i le, yn gwisgo'i sbectol ben i waered, yn gwylio'r radio ac yn torheulo yn y glaw! Gobeithio y caiff Haf amser i lunio rhagor o lyfrau Bob O'Chwith.

CÂN I GYMRU 2011.
Llongyfarchiadau brwd i Ynyr Roberts o Brigyn a Steve Balsamo a Tesni Jones ar wireddu breuddwyd yn ennill cystadleuaeth Cân i Gymru 2011. Ynyr ysgrifennodd y geiriau a Steve gyfansoddodd y gerddoriaeth ar gyfer y gân fuddugol, 'Rhywun yn Rhywle'. Y gantores o Fochdre, Tesni Jones, oedd yn perfformio'r gân ar y noson.

Yn ôl Ynyr, 'Mae breuddwyd wedi dod yn wir. Mae'n deimlad gwych - mae'r gystadleuaeth yn golygu cymaint i mi. Rocdd yn brofiad swrealidd deffro mewn gwesty yn Aber a gweld tlws Cân i Gymru wrth fy ochr.' Pob dymuniad da yn Kerry,

Parhad PENISARWAUN

Iwerddon, yn yr Wyl Ban Geltaidd. Bydd calonnau pawb ym Mhenisarwaun a Bro'r Eco yn curo ac yn sicr yn gwrando.

G E N E D I G A E T H . Llongyfarchiadau i Ceri a Darren Lamb ar enedigaeth eu merch fach, Elin. Llongyfarchiadau i nain a taid, Dot a Mike Lamb, 2 Bryn Eglwys ac i Glenda a Glenn Lamb, modryb ac ewythr, a chyfnither fach i Caitlin a William. Pob bendith i chwi fel teulu.

L L O N G Y F A R C H I A D A U hefyd i Victor a Gwenda Jones, 11 Bryn Tirion, ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd mab bach, Caio Wyn, i Arwel a Jemma o Gwm y glo. Bydd croeso mawr i Caio gan ei chwaer fach, Cadi Mai.

C R O N F A P E N S I Y N W Y R . Enillydd P êl Bonws Loteri mis Chwefror oedd Miss Mair Foulkes, Tai Bryn Hyfryd gyda rhif 43. Llongyfarchiadau i chi. **P E N - B L W Y D D A R B E N N I G .** Dymuniadau gorau i chi, Mrs Blodwen Mowll, 19 Bryn Tirion ar achlysur pen-blwydd arbennig ddiwedd mis Mawrth. **P A S G H A P U S .** Dymunir Pasg Hapus i bawb ohonoch.

*Parhad o dudalen 13.
Artist Preswyl yr
Amgueddfa Lechi*

Gwnaed ymgais i gyflwyno'r disgyblion i rai o chwedlau'r Mabinogi. Gwnaed cysylltiad rhwng Mabon ag Eog Llyn Llyw. Adroddodd Eric Maddern chwedl yr Anifeiliaid Hynaf yn y cwt crwn o amgylch coelcerth o dân. Taniwyd dychymyg y disgyblion i edrych ar y creigiau a'r coed o'r newydd gan weld neu ddychmygu cerflun o Bendigeidfran yn y creigiau. Trodd y Torgoch yn Eog oedd yn achub Mabon o'r carchar ac roedd y Twrch Trwyth eto'n fyw ac yn cael ei hela yn y coed.

Cafwyd darlith ecolegol gan Heather Jackson yn ôl yn yr Amgueddfa Lechi. Cyflwynwyd enwau Lladin i'r disgyblion a daethant i wybod am blanhigion oedd hefyd dan fygythiad fel y Tormaen Porffor, Lili'r Wyddfa a'r Plantin Dŵr. Gwelwyd lluniau o'r Torgoch yn nofio i fyny'r afon i ddodwy ac esboniwyd pam ei fod dan fygythiad oherwydd llygredd carthffosiacth yn Llyn Padarn.

Ar fore'r ail ddiwrnod cafwyd cyflwyniad sleidiau gan Rowenna Williams yn dangos ei gwaith. Dangosodd colampau o gelf tirlun wedi ei greu o rew a dail a gwrthrychau naturiol yn ein hamgylchfyd.

Ar ôl egwyl, dangosodd

Carwyn, un o'r crefftwyr yn yr Amgueddfa Lechi, sut i hollti a naddu llechen i siâp. Camp y disgyblion oedd creu siâp addas i'w gynnwys yn eu gwaith terfynol. Cafwyd siapau amrywiol fel deilen a mesen, pysgodyn wyneb crwn. Ar ôl hyn roedd y disgyblion yn datblygu eu sgiliau creu drwy weithio mewn grŵp. Bu creu ymhob tywydd. Yn y glaw a'r eira, a chyflwyniadau bywiog gan bob grŵp yn adlewyrchu eu dealltwriaeth o gynladwyaeth a dweud sut oeddynt wedi defnyddio eu sgiliau i gydweithio a chreu darn o waith celf amgylcheddol.

Lleolwyd y gwaith y tu allan i'r Amgueddfa Lechi wrth ymyl y pyllau dŵr o dan Ysbyty'r Chwarel. Os ewch yno, mae olion y creu bellach yn rhan o'r tir fel Môr o Lechi Howard Bowcott. Mae'r profiadau dderbyniodd y disgyblion wedi eu hargraffu ar eu cof am byth. Diolch i bawb gyfrannodd tuag at y prosiect.

Diolch i Asiantaeth Gelfyddydol Gwynedd a Môn am noddi'r prosiect.



Dros 50? Medrwch ymddiried yng Nghynnyrch a Gwasanaethau

- | | |
|---------------------------|-----------------------------|
| YSWIRIANT CARTREF | NWY A THRYDAN |
| YSWIRIANT CAR | CYNLLUNIAU ANGLADD |
| YSWIRIANT TEITHIO | GWYLIAU |
| GWASANAETH LARWM PERSONOL | YSWIRIANT RHAG TORRI I LAWR |

Darperir yr Yswiriant Cartref, Car a Theithio gan Fortis Insurance Limited. Darperir yr Yswiriant Rhag Torri i Lawr gan Europ Assistance Holdings Limited.

AGE
Concern

I gael mwy o fanylion ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Mon,
Ty Seiont, Ffordd,
Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Tel: 01286 678310
neu ffoniwch: 0800 085 3741
neu ymwelwch â:
www.ageconcern.org.uk/products

Age UK yw'r grym newydd sy'n uno Age Concern a Help the Aged. Mae teulu Age UK yn cynnwys Age Scotland, Age Cymru ac Age NI.
Age Concern Enterprises Limited, Astral House, 1268 London Road, SW16 4ER

ACOWAL880V2JUL10_CS024825_10



Pan weli di'r arwydd hwn defnyddia'r Gymraeg

cicymraeg.com

Cymraeg

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Heidi gan Lywodraeth Cymuned Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government



WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

YR YSGOL





Dathlwyd Grŵyl Dderwi ar y cyntaf o Fawrth gyda phawb wedi gwisgo mewn crysau coch timau pêl-droed neu rygbi Cymru, neu yn y wisg Draddodiadol Gymreig. Yn ystod y diwrnod cafwyd gwasanaeth arbennig i ddathlu'r diwrnod, a chafwyd Cinio Cymreig – cawl cennin a chig oen. Diolch i staff y gegin am baratoi cinio mor flasus.



Hoffem ddiolch i John, rheolwr shop WHSmiths, a ddaeth i'r ysgol fore Iau Mawrth yr 17eg i helpu'r plant i blannu dros ddeugain o goed. Mae'r cwmni yn cyd-weithio gyda Ymddiriedolaeth Coed Cymru i ddosbarthu coed i ysgolion. Diolch hefyd i famau y Clwb Garddio am helpu'r plant.

Carem hefyd longyfarch aelodau'r Urdd – daeth y côr yn ail a'r parti llefaru yn gyntaf yn yr Eisteddfod Cylch ym Mrynrefail ar Fawrth y 12fed. Hoffem hysbysu Pentrefwyr Waunfawr y cynhelir Noson Bingo'r Pasg yn y Ganolfan nos Fercher, Ebrill y 13eg am 6:30 o'r gloch. Bydd parêd hetiau Pasg gan y plant / gemau bingo/ cŵn poeth/ coffi a the ar werth. Dewch draw, efallai yr enillwch Wŷ Pasg!



Diwrnod y llyfr Dathlwyd diwrnod y llyfr ddydd Iau, Mawrth y 3ydd, a braf oedd gweld cymaint o blant wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr. Cafwyd cwis llyfrau a stondinau llyfrau ail-law. Gwnaed £60 o elw a bydd y Cyngor Ysgol, maes o law, yn penderfynu beth i brynu gyda'r arian.

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



MANTELL
GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
supporting voluntary and community groups

Gywylltwch â Mantell Gwynedd

– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1000051 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnyddig drwy Warant 3420271

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ

Ffôn: (01286) 650834

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor 7.30 – 6.30

8.00 – 6.00 (Sadwrn)

9.00 – 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

Parhad WAUNFAWR

CLWB 300. Enillwyr y Clwb am fis Chwefror oedd: £30: Mrs Ann Clarke, 2 Pant y Waun; £20: Mrs Mary Evans, 7 Tref Eilian; £10: Mrs Gina Gwyrfa, 2 Tŷ Hen.

Enillwyr Mawrth oedd: £30: Mr Don Roberts, Sŵn y Gwynt; £20: Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart; £10: Mr Alwyn Williams, Garreg Fawr.

DIOLCH. Dymuna Mrs Nancy Williams, 2 Bro Waun, ddiolch o galon am y llu anrhegion, cardiaid a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed yn ystod mis Chwefror.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Bu Tammy Jones, Dôl Erddi, yn dathlu cyrraedd ei deunaw oed yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iti i'r dyfodol, Tammy.

LLWYDDO. Gwelwyd Gemma Markham, Fron Llwyd, yn canu un o'r wyth cân a ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth 'Cân i Gymru' ar y teledu ar ddechrau mis Mawrth. Braf oedd gweld dau o'r pentref ar y rhaglen, gan fod Meilir Gwynedd, Nant, yn un o'r beirniaid.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Cerys a Dewi Roberts, sydd wedi dod i fyw i Nant y Mynydd yn ddiweddar, ar enedigaeth Ema Cerys, eu plentyn bach cyntaf.

NEWID AELWYD. Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae teuluoedd newydd wedi ymgartrefu yma yn y Waun, eraill wedi symud o i ardal newydd, ac eraill wedi newid tŷ o fewn y pentref.

Dymunwn bob hapusrwydd a dedwyddwch i chi oll yn eich cartrefi newydd.

YR URDD. Bu aelodau yr Urdd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch a gynhaliwyd yn Ysgol Uwchradd Brynrefail. Daeth y Côr adran yn ail a'r Parti

Llefaru yn fuddugol yn eu cystadleuaeth. Da iawn chi i gyd a phob hwyl i'r criw llefaru yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor ddiwedd mis Mawrth. CROESO adref o'r ysbyty i Alfie Jones, Hafod y Rhug a Mrs Joan Buckley. Mae'r ddau wedi cael triniaeth clun. Croeso adref hefyd i Mrs Gwen Otten, Stad Pant y Waun, wedi iddi dderbyn llawdriniaeth. Dymunwn wellhad buan iawn ichi.

Mae llawer o drigolion y pentref wedi bod yn gaeth i'w cartref oherwydd salwch yn ddiweddar. Hyderwn y byddwch yn cryfhau ac yn gwella fel y daw y gwanwyn.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mr Dic Rowlands, 5 Bryn Golau, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

POB LLWYDDIANT. Mae rhai o ddisgyblion hynaf yr ysgolion a'r colegau wedi sefyll rhai arholiadau ymarferol pwysig yn barod. Dymunwn y gorau i bob un fydd yn wynebu arholiadau pwysig yn ystod yr wythnosau a'r tymor sydd i ddod. Gwnewch eich gorau.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cinio Gŵyl Dewi y gangen yn ôl ein harfer yng nghartref un o'n haelodau, ym Mhenygraig y tro hwn, a daeth 19 ynghyd nos Iau, 24 Chwefror i ddathlu a gwledda. Diolch yn fawr i aelodau'r pwyllgor am drefnu'r wledd tri chwr blasus iawn a diolch yn arbennig i Mrs Jana Jones a ddaeth i'n diddanu gyda sgwrs a chàn.

Daw Jana yn wreiddiol o Dayton, Ohio, ond yng ngholeg Rio Grande yn yr un dalaith y cyfarfu ei gŵr, Haydn, oedd wedi dod draw o Grymu ar ysgoloriaeth chwaraeon. Tua thair blynedd yn ôl y daethon nhw'n ôl i Gymru i fyw a bellach maen nhw wedi ymgartrefu ym Metws Garmon gyda'u dau fab ifanc, Gruff a Cai.

Rheolwr Warws Werdd Antur Waunfawr ar stad Cibern yw Haydn a Jana'n gweithio

gyda Gaia Technologies. Rydym mor falch o'u cael yn yr ardal ac yn ddiolchgar am eu cyfraniad i fywyd y pentref yn eu gwahanol ffyrdd; Haydn drwy ei waith gyda'r Antur a Jana trwy ei chyfraniad i'r côr a'r eisteddfod. Roedd pawb wedi eu syfrdanu at ei Chymraeg rhugl a glân wrth iddi sôn am ei chefnidir a sut y cyfarfu Haydn a dod i Gymru i fyw. Wedyn cawsom y pleser o'i chlywed yn canu 'Adref gan Gwyneth Glyn. Mae gan Jana lais swynol iawn ac erbyn diwedd y gân roedd deigrin mewn sawl llygad!

Noson lwyddiannus iawn, ar wahân i'r adeg pan aeth y lliain bwrdd ar dân. Mae gwraig y tŷ wedi dysgu nad yw canhwylau a lliainiau bwrdd papur yn cymysgu!

Cynhelir ein cyfarfod nesaf nos Iau, 24 Mawrth, yn y Ganolfan pan fydd un o'n haelodau, Mrs Brenda Jones, yn ein diddanu trwy siarad am ei theithiau o gwmpas y byd ac yn dangos sleidiau o rai golygfeydd cofiadwy.

Wedyn, nos Iau, 28 Ebrill, byddwn yn croesawu'r garddwr a'r darlledwr, Russell Jones, i siarad gyda ni am 'Teir, Garddio ac ati', unwaith eto yn y Ganolfan. Estynnir croeso cynnes i aelodau hen a newydd i'r ddau gyfarfod hyn.

DYMUNA Kevin, Tomos a Beca, Cae Trefor, Arial ac Eryl Haf Tomos, Llanwnda, a theulu Ffion Haf, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a gawsant wedi eu profedigaeth sydyn. Diolch i bawb am eu cardiaid, llythyrau, ymweliadau a'u rhoddion. Bydd yr arian a gasglwyd yn mynd tuag at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, a fu'n fawr iawn eu gofal ohoni.

*Cofiwch gefnogi
ein hysbysebwy*

Community Gist Gymunedol

**Awydd £1,000 tuag at eich
prosiect chwaraeon
cymunedol?**

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,000 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

Cysylltwch â:
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu
Chwaraeon
01758 704 054
Rhianeleridobson@gwynedd.co.uk



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

**PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10**

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon


Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

**Gwasanaethau
Garddio
Gorwel**

**01286 650761
07773 020424**

*Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG*



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrahion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

**Uned 1, Ffarm Bryn Afon
LLANRUG**

**Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901**

**Blodau
Racca**

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

**RHODD O'R GALON
VW BLŌDAU**

**Gwesty
Dolbadarn**
LLANBERIS Ffôn: 870277



LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

DIOLCHIADAU. Dymuna Brenda, Heather, Ian a'r teulu oll ddiolch o waelod calon am yr arwyddion o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

Diolch hefyd i bawb am eu rhoddion hael tuag at Ward Alaw ac Eglwys Sant Padarn, Llanberis. Casglwyd £800 er cof annwyl am Brynley. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH. Dymuna Christine Patton, 34 Maes Padarn, ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion, arian a'r llu cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd mis Rhagfyr. Diolch arbennig i Danny, Melisa, Cai ac Elin am y parti a hefyd i Danny am y trip i New York, diolch i bawb.

CYMDEITHAS UNDEBOL. Cafwyd noson ddiddorol yn yr Archifdy yng Nghaernarfon ar nos Fawrth yr 8fed o Fis Mawrth. Cawsom weld llawer o ddogfennau oedd yn gysylltiedig â Chapel Coch a Llanberis. Fe gawsom ein tywys drwy'r ystordai a chawsom weld fel mae dogfennau bregus yn cael eu hatgyweirio.

Diolch arbennig i staff yr Archifdy am ein goleuo a'n tywys o amgylch ble, fel arfer, nad yw ymwelwyr yn cael mynd. Braint yn wir.

I derfynu Tymor y Gymdeithas byddwn yn cael ein cinio blyneddol yng Ngwesty Dolbadarn ar y 12fed o Ebrill am 7 yh. Y gwesteion fydd y Parchedig a Mrs W R Williams y Felinheli.

Cofiwch fod angen rhoi'r Fwydlen a'r arian i'r ysgrifennydd erbyn y 5ed o Ebrill. Diolch yn fawr.

GAIR O DDIOLCH Dymuna Mrs Doris Roberts ac Elwyn, Fron Oleu, ddatgan eu gwerthfawrogiad diffuant am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu colled lwm o golli

Alan, mab annwyl a brawd arbennig. Diolch o waelod calon i bawb am eu caredigrwydd.

DIOLCHIADAU. Dymuna Christine, Iwan, Ian, Colin, Bethan, Sarah a theulu'r diweddar Alan Wyn Roberts, Tan Dinas, ddiolch o waelod calon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

Llawer o ddiolch am y rhoddion tuag at Ymchwil y Galon, Meddygfa Llanberis a Treialon Cŵn Defaid Nant Peris.

Diolch hefyd i bawb yn Meddygfa Llanberis am eu cefnogaeth, i'r gweinidogion Robert Townsend a John Pritchard am eu gwasanaeth teimladwy, a hefyd i Gwynfor Jones am ei drefniadau trylwyr ac urddasol.

YSGOL DOLBADARN

Athletau Dan Do. Mae tîm yr ysgol wedi cyrraedd y rownd derfynol yn y gystadleuaeth atletau dan do am yr ail flwyddyn yn olynol. Pob dymuniad da yn y rownd derfynol yng Nghaernarfon Hamdden Porthmadog y mis nesaf.

Eisteddfod Ysgol. Mae mis Mawrth yn adeg prysur iawn rhwng paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, Diwrnod y Llyfr a Dydd Gŵyl Ddewi. I ddathlu gŵyl ein nawdd sant roedd y plant wedi gwisgo mewn dillad addas i'r diwrnod. Ers tair blynedd bellach hefyd rydym yn cynnal eisteddfod ysgol. Ceir cystadlaethau canu, adrodd a chelf i bob oedran. Uchafbwynt y dathlu yw'r gystadleuaeth corau rhwng y tai. Tŷ Padarn enillodd fwyaf o farciau eleni.

Diolch i Iwan Williams, sy'n gyn-ddisgybl ac yn astudio cerdd ym Mangor, am ddod atom i feirniadu.

Llwyfan newydd. Roedd yr Eisteddfod yn gyfle gwych i'r ysgol ddefnyddio y llwyfan newydd a hwylus mae wedi ei dderbyn yn rhodd gan Bwyllgor y Ganolfan. Diolch i'r Pwyllgor am yr haelioni.

Gweithgareddau Eraill. Mae Sarah o gwmni Dawns i Bawb yn cynnal sesiynau dawns efo disgyblion 8-9 oed ar hyn o bryd. Mae'r weithgaredd yma yn cael ei noddi gan Asiantaeth Gelfyddydol Gwynedd a Môn.

Cafodd Disgyblion blyneddod 4-6 gyflwyniad i beryglon ysmygu gan y consuriwr Howard Hughes. Maent rŵan yn awyddus i ymuno â Chlwb Bygiau Baco.

Bu'r disgyblion hynaf yng nghweithdy Starlab a drefnwyd gan Techniquet yn y Mynydd Gwefru. Roedd y sioe yn rhoi synaid da i'r plant o anferthed y bydysawd.

Bu Gareth Roberts o Ddeiniolen yn siarad efo'r plant am ei brosiect yn hel lluniau a chofnodi llwybrau yn yr ardal. Roedd y weithgaredd yma yn gysylltiedig â Gŵyl Ffilmiau Llanberis.

Trwynau Coch a Gwalltiau Gwalltgof. I godi arian ar ddiwrnod y trwynau coch fe benderfynodd y Cyngor Ysgol y dylai plant a staff ddod i'r ysgol efo gwalltiau gwalltgof - hyd yn oed y Pennaeth! Cafwyd amser hwyliog a chodwyd dros £200 at yr achos.

Yr un diwrnod cafodd y disgyblion sy'n cael gwersi offerynnol fynd i gyfarfod â Jack Liebeck, y fiolinydd enwog oedd yn ymweld â Pencunant. Roedd yn brofiad i'r plant gael clywed y cerddor enwog yn chwarae ei ffidil. Diolch i Steffan am y croeso.

Dymuniadau Gorau. Dymunwn yn dda i Mrs Bethan Morris Parry sydd wedi ei phenodi i swydd cymhorthydd yn Ysgol Llandegai. Mae Mrs Bethan wedi bod yn dilyn rhaglen hyfforddiant efo ni dros y flwyddyn ddiwethaf.

Erbyn i'r Eco ymddangos

bydd Lowri Jones a Bethan Williams sy'n astudio ym Mangor wedi ymuno â ni ar gyfnod o Brofiad Ysgol. Croeso atom.

GWASANAETH MEDDYGOL NEWYDD

Newid Rhif Ffôn Gwasanaeth y Tu Allan i Orlau Meddygon Teulu Gogledd Cymru

O 1 Ebrill 2011 bydd y Gwasanaeth Tu Allan i Orlau Meddygon Teulu Gogledd Cymru yn cael ei ddarparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Ni fydd y gwasanaethau na'r lleoliadau lle mae'r gofal yn cael ei ddarparu yn newid. Bydd rhif ffôn newydd ar gyfer y Gwasanaeth y Tu Allan i Orlau ar gael rhwng 6.30pm a 8.00am o ddydd Llun i ddydd Gwener a thrwy'r dydd a'r nos ar benwythnosau a gwyliau banc. Os oes angen gweld meddyg arnoch yn ystod yr amseroedd hyn ffoniwch 0300 123 55 66.

Os byddwch yn cysylltu â'r gwasanaeth, byddwch yn cael eich asesu dros y ffôn a'ch cynghori ynghylch y gofal mwyaf addas i chi. Gall hyn fod yn gyngor dros y ffôn gan feddyg neu nyrs neu efallai y byddwch yn cael apwyntiad i weld meddyg mewn Canolfan Driniaeth y Tu Allan i Orlau yn lleol.

Nid canolfannau galw heibio neu gerdded i mewn mo'r Canolfannau Triniaeth y Tu Allan i Orlau hyn. Rhaid i gleifion drefnu apwyntiad cyn cael eu gweld drwy ffonio'r Rhif y Tu Allan i Orlau: 0300 123 55 66.

Ffoniwch 999 neu ewch i'r Adran Achosion Brys (A&E) agosaf ar gyfer argyfyngau fel colli ymwybyddiaeth, poen difrifol yn y frest, damweiniau difrifol neu golli gwaed difrifol.

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Mae'r Cyngor eto eleni yn estyn gwahoddiad i fudiadau gwirfoddol lleol **wneud cais am gymorth ariannol** o Gronfa Cymorthdaliadau Bychan y Cyngor. Cyfyngir y ceisiadau i fudiadau lleol neu fudiadau sy'n gweithredu'n lleol.

Dylid anfon cais yn ogystal â mantolen ariannol am y flwyddyn ariannol ddiwethaf at y Clerc **cyn y dydd olaf o Ebrill, 2011**

Anfonwch at:

Clerc Cyngor Cymuned Llanberis (EW), Ty'n Twll, Nantperis, Caernarfon. LL55 4UL.



Eisteddfod Yr Urdd Glynllifon • Mehefin 2012

Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus

**I Drefnu Pwyllgor Apêl Yn Llanberis
i Godi Arian at
Eisteddfod Yr Urdd 2012**

**Y Cyfarfod i Ddechrau am 7 o'r gloch
Nos Fawrth Ebrill 12^{fed}.
YN Y GANOLFAN LLANBERIS**

**CROESO
I BAWB**

Côr Meibion Dinas Bangor

Y mae'r trefniadau eisoes wedi cychwyn ar gyfer taith y Côr i Awstria ym mis Medi. Y mae nifer dda o'r aelodau am ymuno ar y daith fydd yn parhau am wythnos, o 6-13 Medi. Bydd y Côr yn hedfan i Munich ac yna teithio ymlaen i bentref Soll yn ardal y Tirol yn Awstria.

Hwn fydd y trydydd gwaith i Gôr Bangor ymweld â Soll. Bu'r Côr yno yn 1996 a 2001 yn canu mewn cyngherddau efo côr y Kufsteiner Singkreis, sef côr cymysg arbennig o dda o dref gyfagos Kufstein. Cynhelir cyngerdd yn eglwys hardd Soll sydd yn cael ei chyfrif fel enghraifft wych o bensaerniaeth cyfnod y baroc yn Awstria. Gobeithir trefnu un cyngerdd arall naill ai yn nhref Kufstein neu yn nhref Worgl,

nepell o Soll. Bydd y Côr yn darparu rhaglen arbennig ar gyfer yr ymweliad gan gynnwys dwy gân mewn Almaeneg a threfniant arbennig ar gyfer y daith gan Gwilym Lewis o'r alaw werin Gymreig, 'Tros y Garreg'.

Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd sawl gweithgaredd gan y Côr gan ddechrau gyda chanu mewn priodas yn Eglwys Llanbeblig, Caernarfon ar 9 Ebrill, ac yna y cyntaf o gyfres o gyngherddau eglwys St John Llandudno yn nechrau Mai.

Bydd croeso i ymwelwyr ddod i unrhyw ymarfer y Côr yn Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd, bob nos Fercher am 7-30 yr hwyr. Ac, wrth gwrs, bydd croeso i ddarparu aelodau newydd.

Croeso Mawr i Bawb i Eisteddfod

Genedlaethol yr Urdd Abertawe a'r Fro 2011

Mae'r Eisteddfod ar y gorwel a hanner tymor yr haf yn agosau. Mae croeso cynnes iawn yn eich aros yn Abertawe ac arlwyfych o gyngherddau gyda'r nos a'r Maes yn fwrlwm o weithgareddau i bob oed. I brynu tocynnau ar gyfer yr Eisteddfod a'r sioeau nos ewch i'r wefan neu ffoniwch 0845 257 1639.

Nos Sul, 29 Mai am 8.00

Cyngerdd Agoriadol gyda Alex Jones, John Owen Jones, Elgan Llŷr Thomas, Dawnsyr Talog, Ysgol Gerdd Mark Kermin a llawer mwy

Tocynnau £12 a £10.

Nos Lun, 30 Mai am 6.30

Cystadleuaeth y Gân Actol i Ysgolion Cynradd yn y Pafiliwn

Tocynnau: £8 a £6.

Nos Fawrth, 31 Mai a nos

Fercher, 1 Mehefin am 8.00
Sioe Ysgolion Cynradd yr ardal 'Melltith yr Helfeshia'

Cynhyrchiad gan Gwmni Theatr Na N'Og yn seiliedig ar hanes llongddrylliad yr Helfeshia ar Draeth Rhossilli yn 1887.

Tocynnau: £12 a £10.

Nos Wener, 3 Mehefin am 6.30
Cystadleuaeth y Cerddorfeydd yn y pafiliwn.

Tocynnau: £6.

Dydd Sul, 5 Mehefin am 11.00
Cymanfa Ganu yn y Pafiliwn

Tocynnau: £6.

Dysgu mwy am Amgueddfa Lloyd George

Bydd Nest Thomas, o Wasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau Cyngor Gwynedd yn cyflwyno darlith "Hanes Sefydlu Amgueddfa Lloyd George" yn Llanystumdwy, nos Wener, 18 Mawrth am 7.30pm. Mynediad £5. Am ddim i Gyfeillion Amgueddfa Lloyd George.



'wedi gwrthsefyll grym amser a natur'

Llun rhyfeddol o gwt Mochal Ffiar o un o hen boncydd chwarel Dinorwig. (llun gan Gwyndaf)

MOLI

Mwy O Le i'r Iesu

Oedfa fisol newydd, yn Capel Coch, Llanberis.

Trefnir ac arweinir yr oedfa gan ieuenctid ac arweinwyr CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol).

Os nad oes oedfa nos yn eich capel / eglwys chi, mae croeso cynnes i chi ddod atom i'r oedfa hon a gynhelir ar yr ail nos Sul o'r mis.

Bydd yr oedfa nesaf am 5.00 o'r gloch, nos Sul, Ebrill 10.

Croeso hefyd i chi aros am baned ar ôl yr oedfa.

CYNGERDD PATAGONIA

Nos Fawrth, Mai 10, 2011
Neuadd Ysgol Brynrefail
Mynediad: £5 i bawb

Mici Plwm yn cyflwyno:
Elfed Morgan Morris, Gwyn Owen, Lois Eifion a Siôn Elwyn, Lleisiau'r Mignedd, Piantel, Plant Ysgol Gynradd Bethel, Seindorf Arian Ieuenctid Deiniolen, Siân ac Emyr Gibson, Sioned Webb a Bronwen Price

Tocynnau ar gael o Swyddfa Brynrefail
01286 672381

Capel Rehoboth Nant Peris

Nos Wener 15^{fed}.
o Ebrill am 7 o'r gloch

CYNGERDD GWLADGAROL "Y Deffroad Cenedlaethol"

Gyda Elwyn (Hogia'r Wyddfa)
Ac Artistiaid Eraill

Mynediad am ddim
Casgliad at GYMDEITHAS YR IAITH
Manylion-07566256783



ffoniwch - WIL, PEN-LLYN 079990926484

GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

ANTUR WAUNFAWR AILGYLCHU

Gwaredu Data



Llarpio Dogfennau Cyfrinachol

www.anturwaunfawr.org

ffon: 01286 669330

swyddfa@anturwaunfawr.org

Rhywdro yn ystod dyddiau olaf Mai, penderfynodd barchu ei addewid. Fe âi i'w gweld. Yn un profiadol, effeithiol ac onest yn ei waith, cysidrai ei hun yn llawer llai abl mewn sgiliau cymdeithasu. Doedd sgwrsio am faterion cyffredin bob dydd na mân siarad ddim yn un o'i gryfderau.

Buasai'r flwyddyn flaenorol, pum deg wyth, yn anodd. Am y tro cyntaf erioed yn ei yrfa, temlasai rhyw anniddigrwydd a achosodd iddo gwestiynu'n ddwys ei ymrwymiad i'w alwad. Yn ystod Medi cafodd wŷs oddi wrth yr Adran Amaethyddiaeth i fod yn gyfrifol am un o'r niferus dimau o ddynion lladd anifeiliaid. Yn dilyn, bu misoedd o danau enfawr, myglyd; bob nos y fflamau oren yn cysgodlunio coesau-blith-drafflith a chyrff chwyddedig miloedd o anifeiliaid heintus ac iach ar eu coelcerthi angladdol. Roedd yr arogl ffiadd yn dal i ymdroi yn yr ardal. Yn filfeddyg cydwylbodol llwyddasai i ofalu bod pob aelod o'i dîm wedi 'cyflawni'r weithred' mewn modd mor drugarog â phosib. Ei ddyletswydd unig a beichus o ei hun oedd ymweld â'r ffermydd a'r tyddynnod i draddodi'r ddedfryd. Bu i'r haint anrheithio'r mynydd-dir gan adael tawelwch iasol a chaeau'n amddifad o'u hanifeiliaid.

Gallai ei chlywed hi rŵan; ei llais yn torri.

'Wnei di ddim gadael iddi ddiodda na wnei? Ddoi di'n ôl yma i'ngweld i pan fydd hyn i gyd drosodd, 'ngwas i? Ti wedi bod yn ffeind wrtha i.'

Ffeind? Caredig? Wedi lladd ei hunig fuwch! Roedd rhywbeth truenus ond tawel yn ei hosgo, yn sefyll yno'r diwrnod hwnnw yn ei barclod bras yn gwylio'r tryc yn ymadael.

Yn unol â'r addewid roedd ar ei ffordd i'w gweld. I fod yn onest bu'n dyfalu'n aml beth allai fod wedi digwydd iddi, heb deulu, ac yn byw mewn lle mor anghysbell. Tra'n myfyrio, sylweddolodd ei fod wedi cyrraedd. Gan barcio'r car wrth y gwrych ar ochr y lôn gerrig gul, cerddodd yr ychydig lathenni at y giât oedd yn y bwlch yn y wal isel o gylch yr ardd fachan o flaen y tŷ. Rhygnodd y giât wrth iddo'i gwithio'n agored. Ar y chwith i'r drws roedd llwyn lafant wedi gordyfu ac wedi crasu yn union fel y planhigion yn y potiau browngeoch o dan y ffenestri llwyd. Ymwethiai wynebau melyn dant y lle rhwng crawiau'r llwybr at y drws... aedd ynghau.

Gan dybio efallai iddi ei weld

neu ei glywed yn troedio'r llechi, oeddodd ennyd cyn curo'r drws. Anarferol oedd gweld ei drws ynghau. Adwaenid trigolion yr ardal yn ddiwahân am eu croeso-drws-agored, ac yn ogystal roedd hi'n ddiwrnod cynnes braf. Curodd eilwaith gan drio'r glicied. Roedd y drws ar glo. Am eiliad fflachiodd y gwaethaf i'w feddwl, ond na, clywai'r gorriad yn crafu'n y clo a dyna'r lle'r oedd hi. Ers pan y'i gwelodd ddiwethaf roedd hi wedi mynd yn fychan bach, wedi crebachu. Pan adnabyddodd hi pwy oedd yno, llanwodd ei llygaid ac ymledodd gwên dros ei hwyneb.

'O machgen i, chdi sy 'na. Tyd i mewn!'

Gwyrodd a chamodd dros y rhiniog i'w dilyn. Teimlai'r tyddyn yn oer.

Amneidodd. 'Stedda'n fanna. Nes di ddeud y buaset ti'n dŵad - a dyma ti wedi cadw dy air. Dwi mor falch o dy weld di. Sut wyt ti? Ti di cael amsar caled dwi'n siŵr,' a gollyngodd ei hun yn araf i'w chadair yr ochr arall i'r hen simdde fawr.

'Diolch. Dwi'n iawn, diolch. Mae'n dda gen i'ch gweld chitha hefyd. Dw i wedi bod yn meddwl llawar amdanach chi.'

Nodiodd ei phen yn gynnil. 'Mi gymri banad gnei? Ro'n i'n mynd i gael un fy hun. Mae te'n blasu'n llawar gwell efo cwmni, 'n tydi!' gwithiodd yn erbyn breichiau'r gadair i godi.

'Fuaswn i'n mwynhau panad. Ga i'neud rhywbeth i helpu?'

Gwenodd. 'Diolch i ti, ond na, dw i dipyn yn ara ond mi fedra i'neud wsi - 'stedda di yma,' a llusgodd ei gwadnau i'r gegin.

O'r sofffa, cadwai cyrlan o gath ddu a gwyn un llygad cysglyd arno. Tusw o flodau, nid o ardd y tyddyn, oedd yn y jwg gloyw ar y bwrdd ffawydd. Rocdd y llygodyn tân yng nghefn y grât yn gwneud ei orau i dorri'r ias yn yr ystafell. Fe fu sglein ar y dresal rhywdro a roedd y llestri glcison yn llwyd yn llwch eu segurddod.

Daeth yn ei hól o'r gegin. Roedd o wedi gweld y llestri o'r blaen, tsieni gwyn, tenau a phatrymau coeth a chain arnynt. Anrheg priodas. Nid arferai eu defnyddio ond ar y Sul pan fyddai ymwelydd o bregethwr yn dod am de... nes diwrnod y cynhebrwng... a wedyn, docdd dim llawer o ots.

Tywalltodd y te poeth o'r tebot pridd. Rhocs ci gwpan a soser yn ofalus ar y bwrdd crwn wrth ei ymyl, plât bach, ac estynnodd blât bara menyn gyda thafelli helaeth o fara brith newydd ei bob i arno.

Gwenodd yntau i fyw ei

llygaid.

'Cym ddau damad, wir, chditha'n hogyn ar dy brifiant.' Roedd o'n ddeg ar hugain oed os oedd o'n ddiwrnod. Hogyn ar ei brifiant!

Gwenodd eto. 'Mae hwn yn edrach yn arbennig a mae'r arogl yn fendigedig. Ew, diolch i chi.'

Ddywedodd hi ddim. Sylwodd nad oedd hi'n bwyta.

'Sut 'da chi'n dŵad ymlaen erbyn hyn? Da chi'n gweld pethau dipyn yn anodd ar ôl y clwy?'

'Dw i'n iawn am wn i, wsi, ddim yn rhy ddrwg; y cryd cymala 'ma'n dipyn o niwsans ar brydia, fedra i ddim mynd o gwmpas cystal â medrwn i.'

'Mae'r bara brith 'ma'r arbennig.'

Crychodd ei llygaid yn ei gwên. 'Rhaid iti fynd â pheth adra efo chdi. Mae gen i fwy na digon.'

'Yda chi'n pobi llawer felly?' Gwyddai fod y cyfyngiadau'n dal i fodoli a sylweddolai nad oedd llawer o ddim arall fedrai hi ymddiddori ynddo ar ei phen ei hun yn ei chartref pell.

'Ydw, dw i'n trio pobi mwy nag oeddwn i'n arfer, mae'n debyg. Ffrindiau'n galw weithiau. Maen nhw'n ffeind iawn. Helpu fi os dw i angen rhywbeth, a mae nhw'n lecio fy mara brith i. Dw i'n meddwl mai dyna pam mae rhai ohonyn nhw'n dŵad!' a chwarddodd yn ysgafn. 'O ia, ma nhw'n dŵad â llefrith imi ers...'

Dyma pryd y bydda i yn dweud y peth anghywir meddyliodd, ond aeth hi ymlaen. 'Mae hi wedi bod yn llawer sobrach ar rai erill, 'ngwas i. Fel ti'n gwybod. Ti wedi gweld llawar dwi'n siŵr.' Oeddodd 'Ond dyna fo, dw inna'n colli Sal. Ar ôl i Dafydd farw, hi oedd fy ffrind gora. Cwmni wsti. Mac lle gwag ar ei hól hi.'

Buasai'n weddw am flynyddoedd. Gofalodd yn dyner am Dafydd gydol ei waeldd ond ildio fu raid iddo yntau i 'felltith y chwarelwr' ar ôl treulio'r rhan fwyaf o'i fywyd byr ar wyneb y graig. Arhosodd hi yn y tyddyn a chadwai fuwch ac ychydig o ieir yn union â'r drefn pan oedd Dafydd yn fyw. Rocdd yn arferiad cyffredin i chwarelwyr yn y tyddynnod gadw ychydig o anifeiliaid i atodi'r mymryn annigonol o gyflog gaent am lafurio i arglwydd y Faenol.

'Dw i'n i cholli hi, mae gen i hiraeth amdani,' sibrydodd fel pe wrthi'i hun.

Teimlai allan o'i ddyfnder rŵan.

'Mae pawb 'di bod mor ffeind, pawb yn ffeind,' ailadroddodd

fel pe bai'n ceisio ei darbwyllo ei hun. 'Ond 'di petha ddim 'r un fath.'

Saib arall i gyfeiliant y cloc mawr.

Ochneidiodd yn ysgafn. 'Deud wrtha i, 'ngwas i, aeth Sal yn dawal?'

Teimlai ei hun yn gwyro tuag ati ac yn cymryd ei dwylo main yn ei ddwylo cydnerth ei hun. 'Do, mi aeth Sal yn dawal. Mi aeth i gysgu'n dawal braf, a fi oedd efo hi.'

Yn ymwybodol o'i gofid adeg yr haint, fe drefnodd i Sal gael ei cherdded i'r lori wartheg a fo ei hun yn dawel a thosturiol fu'n gyfrifol am roi chwistrelliad iddi, ymhell o'r tyddyn.

'Ma hi'n dawal ei lle,' clywodd ei hun yn dweud. 'Ydi, mae Sal yn dawal a di-boen.'

'Diolch, 'ngwas i,' meddai gan symud y gwllith o'i llygaid gyda chornel ei barclod. 'Fuost ti'n ffeind iawn wrth Sal a finna y diwrnod yna. 'Na i byth angofio mor dda fuost ti.'

Edrychodd o'i chwmpas. 'Nes i feddwl cael ci bach, ond wn i ddim pa mor hir y medra i gario 'mlaen i fyw yma, felly nes i ailfeddwl.'

'O.' Ni wyddai sut i ymateb. Gallai ddychmygu patrwm ei dyfodol.

Gydag ymdrech, cododd o'i chadair a mynd am y gegin. Dychwelodd gyda bocs bychan o 'Roses' a rhywbeth arall mewn bag papur llwyd. 'I chdi mae hwn. Nes i brynu o i ti am fod yn ffeind efo Sal. Gobeithio bod chdi'n lecio siocled. A dyma ti fara brith ffres i fynd adra. Mwynha nhw, 'ngwas i.'

Roedd hi'n amser ymadael. Gafaelodd yn ei dwylo a chan ddiolch iddi eto am ei charedigrwydd, ffarweliodd â hi a phlygodd ei ffordd allan drwy ffrâm y drws llwydwyrdd. Cerddodd y ddau at y giât. Yn araf caeodd hi. Nodiodd hithau ei phen ac ymlwybrodd ar hyd y crawiau a'r dant y llew yn ôl i'w chartref. Gwyliodd hi nes caeodd y drws.

Wrth iddo agor drws y car clywodd hi'n galw. Â ffon yn un llaw, y tusw blodau o'r jwg ar y bwrdd yn y llaw arall, roedd yn stryffaglio tuag ato. Cyfarfu â hi wrth y giât.

'Rho'r rhain ar fedd Sal, 'ngwas i. Diolch.'

Wrth wyllo'i chefn yn mynd tua'r tŷ, sychodd ei lygaid â chefn ei law. Gwelodd y drws yn cau. Yn y car, eisteddodd; edrychodd ar y blodau ar y sedd gyferbyn cyn troi'r gorriad i ddychwelyd i fynd na fyddai byth braidd yr un fath.

NORAH O'BRIEN

O SIAMBAR SELWYN

Mae 'na stori tu ôl i amryw o ganeuon fel y gwyddon ni. Sut a pham y cyfansoddwyd nhw, ac ymhle? Rhyw brofiad personol tu ôl i'r cerddi. Dwi'n cofio gwylio y gêm bêl-droed gofiadwy honno rhwng Lloegr a'r Ariannin, pan sgoriodd Maradona ddwy gôl arbennig i chwalu gobeithio y Saeson yng Nghwpan y Byd. Roedd Arwel, Hogia'r Wyddfa, yn gwylio'r fuddugoliaeth fawr hefo fi ac yn ymfalchio yn noniau y 'stwcyn bach bywiog dan fop o wallt du'.

Fe benderfynon ni yn syth ar ôl yr ail gôl fod y dewin hwn yn haeddu cân, ac ymhen ychydig oriau ar ôl y chwiban ola' roedd y geiriau a'r alaw wedi eu cyfansoddi, a'r gerdd 'Maradona' ar gof a chadw. Wrth gwrs, roedd ambell Sais penboeth yn bendant fod y dewin wedi llawio'r bêl pan sgoriodd y gôl gynta'. Lol botas maip! Roedd y dewin bach hwn yn ormod o 'hen law' i chwarae rhyw driciau anonest felly.

Cyd-ddigwyddiad hollol annisgwyl i mi pan es ar fordaith rownd De America a chael glanio gyda llong, fel y Mimosa, ym Mhorth Madryn, oedd mynd i gaffi o'r enw Tŷ Te Caerdydd a chlywed Hogia'r Wyddfa yn canu yn y cefndir. A'r gân roeddau nhw yn ganu? Ia, Maradona...

Y prynhawn hwnnw yn yr un caffi daeth un o'r parti a oedd yn ein diddanu ata i gan ymfalchio yn y ffaith ei fod o wedi ennill ar y Brif Adroddiad yn Eisteddfod y Wladfa. Yn naturiol roeddwn yn fwy na pharod i'w longyfarch gan holi beth oedd y darn prawf? Yr ateb - Maradona. Ydi mae'r 'hen law' wedi bod yn arwr yn yr Ariannin dros y blynyddoedd, ar faes y bêl-droed yn ogystal ac ar faes yr Eisteddfod.

Ar daith rownd y byd gyda fy hen gyfaill ffyddlon, y diweddar T. Gwyn Jones - Gwyn Tregarth

- yr oeddwn pan gyfansoddwyd y gân 'Traeth Bondai'. Torheulo ar yr union draeth yr oeddau ni, ac yn gwylio 'y tywod mor euraid a'r tonnau fel llaeth' pan gydiodd yr awen. Cyn diwedd y dydd roedd Gwyn wedi dechrau hymian alaw ar gyfer y gerdd. Wrth ddwyn i gof fy nheithiau i sawl gwlad hefo Gwyn, mi fydda i bob tro yn cofio am 'heulwen a llanw a thrai, a'r tonnau fel llaeth ar y traeth ym Mondai'.

Oes mae 'na stori tu ôl i ambell ddarn adrodd syml i blant hefyd. Dwi'n mynd yn ôl sawl blwyddyn rwan pan oeddwn yn blentyn tua wyth oed yn Bryn Alun, Bethel. 'Nhad a'i gyfaill, Bob Gwilym, yn sgwrsio gyda'i gilydd a finna yn gwrando'n fusneslyd hefo un glust a chlywed:

'O, ma'r lôn ger Erwbian wedi cau yn gyfan gwbl. Syrcas fawr wedi pasio yn ystod y nos, ar ei ffordd o Fethesda i Gaernarfon, a'r eliffant wedi mynnu gwneud ei fusnas o flaen tai Erwbian. Does 'na ddim posib i neb na dim basio.'

'Dew,' medda Bob Gwilym, 'biti na fasa gynnon ni dreilar, mi fasa stwff fel'na yn gneud byd o les i'r gerddi 'ma am flynyddoedd.'

Distawrwydd. Roedd y wyrth ger Erwbian yn chwarae ar fy meddwl i ac i ffwrdd â fi hefo'r bwced fwya y ces afael ynddi tua Erwbian. Lôn ar gau? Mynydd o faw eliffant? Choeliais i fawr. Dim olion o gwbl fod dim wedi digwydd yno. Es adre yn ddigon siomedig hefo pwced wag a dywedais yr hanes wrth Mam. Gwenodd Mam a gofyn,

'Wyddost ti pa ddiwrnod ydi hi? Mae'n gynta o Ebrill, 'ngwas i.'

Ymhen blynyddoedd wedyn y cyfansoddais y darn adarodd 'Ffêl Ebrill'. Oes, mae 'na stori tu ôl i ambell ddarn adrodd hefyd. Cymerwch ofal dros y penwythnos 'ma.

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

DIOLCH. Dymuna Hannah, Annette, Olwen, Marina a'r teulu oll ddatgan eu diolch diffuant i bawb ym mro'r Eco am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli gŵr, tad, tad yng nghyfraith a thaid annwyl iawn. Diolch o galon am y llu cardiau, ymweliadau, galwadau ffôn a'r holl roddion a dderbyniwyd er cof am Evan Bryn tuag at Uned Gofal Dwys, Ysbyty Gwynedd a Sefydliad y Galon.

Diolch yn arbennig i'r Parchedig John Pritchard a'r Parchedig Robert Townsend am y gwasanaeth coffa hyfryd a'u bugeilio caredig, ac i Gareth Jones yr Organydd. Diolch o galon i'r Ymgymerydd Dylan a Meinir Griffith am eu gwaith arbennig, eu cymorth a'u cefnogaeth diflino yn ystod eu profedigaeth.

Diolch o galon i chi i gyd. CLWB ORWIG. Dathlodd aelodau y clwb uchod Wyl Dewi eleni trwy ddod ynghyd i ginio yng Nghanolfan Blue Peris. Pleser mawr oedd cael croesawu Mrs Megan Morris a Mrs Ann Lo yn ôl wedi eu gwaeledd diweddar.

Digwyddai fod yn ben-blwydd Mrs Alice Griffith yr un diwrnod, a chafodd pawb ran o'r deisen pen-blwydd a baratowyd ar ei chyfer. Llongyfarchwyd Mrs Elizabeth Jones hefyd ar ddatlu ei phen-blwydd hithau y diwrnod canlynol.

Diolchwyd i Miss Morfudd Jones a Mrs Betty Bower am addurno'r bwrdd mor chwaethus gyda chennin Pedr. Rhannwyd y blodau ymysg yr aelodau ar y diwedd. Diolchwyd hefyd i Mrs Kathleen Davies a Mrs Beryl Griffith am eu rhoddion ar

gyfer y raffl.

GWELLHAD. Yr oedd yn ddrwg gennym ddeall fod Mr Dave Woods, Fron Heulog a Mr Reginald Jones, 9 Bro Elidir, wedi bod i mewn yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth yn ystod y mis. Hyderwn y bydd y ddau yn cael llwyr iachâd. Brysiwch wella yn fuan. LLADRAD. Ar brynghawn y 3ydd o Fawrth, pryd yr oedd Mr a Mrs Ray Bower, Tan y Marian, yn mwynhau cinio Gŵyl Dewi yng Nghanolfan Blue Peris, ac allan o'r cartref am rhyw dair awr, yr oedd rhywun neu rywrai wedi malu drws cefn y cartref ac wedi mynd i mewn yno gyda'r bwriad o ddwyn. Cafodd llawer o bethau gwerthfawr a phethau yr oedd Betty yn meddwl llawer ohonynt, eu dwyn ac roeddynt wedi gadael dipyn o lanast ar eu hól.

Mae'n anodd credu sut yr oedd neb yn gallu gwneud y fath beth pan fod y ddau yn bensiynwyr a'u hiechyd yn ddigon bregus. Betty wedi bod i mewn ac allan o'r ysbyty dros gyfnod y Nadolig ac, fel yr oedd yn dechrau gwella, peth fel hyn yn digwydd. Gobeithio y bydd i'r Heddlu eu dal yn lled fuan er mwyn tawelwch meddwl i'r henoed yn yr ardal.

Os oes unrhyw un yn gwybod rhywbeth am y lladradd a fuasent mor garedig â chysylltu â'r Heddlu yn yr orsaf yn Llanberis neu Caernarfon. Does dim bwys pa mor fychan yw'r wybodaeth, gall fod o gymorth i'r Heddlu gan fod angen cosbi rhai fel hyn.

Ray a Betty, cymerwch gysur o'r wybodaeth fod yr ardal i gyd yn cydymdeimlo yn fawr iawn â chwi, a phawb yn methu coelio fod peth fel hyn yn cymryd lle yn yr ardal yma.

Cofiwch gefnogi ein hysbysebwy

ARVONIA

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr masnachwyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

12 Llys Castan, Parc
Menai, Bangor LL57 4FH.



01248 679093



Ysgolion Gwynedd yn brwydro i ennill yn y gala nofio

Cafodd nifer o ddisgyblion ysgolion cynradd Gwynedd lawer o hwyl yn y dwr yn ddiweddar mewn dwy gala nofio gyffrous iawn.

Yng Nghanolfan Hamdden Arfon, Caernarfon, cynhaliwyd gala nofio i ysgolion cynradd â llai na 85 o ddisgyblion ddydd Iau 10 Chwefror 2011 ac ar y diwrnod canlynol, tro'r ysgolion cynradd gyda dros 85 o ddisgyblion oedd hi i ddangos eu doniau yn y pwll.

Cafwyd cystadlu brwd gan y disgyblion i gyd, ond Ysgol y Felinheli ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth i ysgolion â llai na 85 o blant, gyda sgôr terfynol o 71, gydag Ysgol Bethel yn ail ac Ysgol Waunfawr yn drydydd. Roedd 12 o ysgolion yn cymryd rhan ar y diwrnod.

Llwyddodd yr ysgolion sydd â mwy na 85 o ddisgyblion i roi sioe a hanner hefyd gyda phum ysgol yn cystadlu. Ysgol y Gelli, Caernarfon enillodd gyda sgôr o 134, gydag Ysgol Llanrug yn ail ac Ysgol Dolbadarn yn drydydd. Dywedodd Dyfed Glyn Davies, Swyddog

Datblygu Gweithgareddau Dŵr Cyngor Gwynedd:

'Cafwyd dau ddiwrnod llwyddiannus iawn yn y gala nofio gyda nifer o ddisgyblion ysgolion cynradd ardal Arfon yn mwynhau cystadlu yn y pwll gan gynrychioli eu hysgolion. Roedd hi'n braf gweld nofio o safon uchel iawn gan y plant, ac yn bwysicach, roedd pawb i weld yn cael llawer iawn o hwyl.

'Llongyfarchiadau mawr i Ysgol y Felinheli ac Ysgol y Gelli am ddod yn fuddugol, a diolch i bob ysgol a gystadlodd. Hoffwn ddiolch i holl staff Canolfan Hamdden Arfon am eu help yn ystod y ddau ddiwrnod.'

Am wybodaeth bellach am nofio a gweithgareddau dŵr yng Ngwynedd, cysylltwch â Dyfed Glyn Davies, Swyddog Datblygu Gweithgareddau Dŵr Cyngor Gwynedd ar (01286) 677983. Neu am fwy o wybodaeth am unrhyw un o ganolfannau hamdden Gwynedd ewch i www.gwynedd.gov.uk/canolfannauhamdden

Parkinsons Cymru: Cangen Arfon a Môn

Ym 1989 y sefydlwyd y gangen leol o'r hyn a elwid yn ddiweddar yn Gymdeithas Clefyd Parkinson. Byth ers hynny buom yn cyfarfod yn fisol - erbyn hyn ar bawn Gwener olaf bob mis am ddau o'r gloch yn Festri Capel Rhosygad, Llanfairpwllgwyngyll. Cawn siaradwyr ar amrywiol destunau, a chyfle am baned a sgwrs a chyfnwedd profiadu.

Pwrpas y gymdeithas, ar raddfa Brydeinig, ydi darparu gwybodaeth a chefnogaeth, ymchwilio i achos y clefyd ac i ddulliau o'i drin, gyda'r gobaith, yn y pen draw, o ddarganfod moddion gwellhad. Yn lleol, ar wahân i'r cyfarfodydd misol byddwn yn trefnu trip yn yr haf a chinio Nadolig.

Sefyll yn dal tun mewn archfarchnadoedd amryw o weithiau bob blwyddyn yw ein prif ffordd o godi arian, ond rydym hefyd yn derbyn llawer trwy garedigrwydd cyfeillion yn rhedeg ambell farathon, cynnal

bore coffi, gwneud cardiau Nadolig - a hyd yn oed dawnsio am ddeuddeg awr! Daw llawer o arian i'r coffrau hefyd trwy roddion ef cof am anwyliad.

Mae rhai yn nodi bod yr arian a roddant inni i'w ddefnyddio yn benodol er budd dioddefwyr lleol, ac rydym felly yn gallu darparu offer, therapi amgen, gofal seibiant neu help tuag at deithio i unrhyw un sy'n aelod o'r gymdeithas os yn mynychu'r gangen neu beidio. Ar wahân i hyn rydym yn anfon arian i hybu ymchwil yn rheolaidd ac yn 2010 anfonwyd £10,000.

Mae Ebrill 11-15 yn Wythnos Ymwybyddiaeth Parkinson, pryd y bydd staff y gymdeithas yn teithio Cymru o'r naill gangen i'r llall gan orffen yn Llanfair, ym maes parcio Pringle, tua hanner awr wedi dau ar y pawns Gwener. Dowch i'n cefnogi! Os am unrhyw fanylion pellach, croeso i chi ffonio Myfanwy Bennett Jones ar (01248) 714677.

Arddangosfa Artist Arbennig: Frank Green

Nos Lun, Mawrth 21ain yn Academi y Celfyddydau yn Lerpwl agorwyd arddangosfa o waith yr arlunydd Frank Green. Yn enedigol o Chirbury, swydd Amwythig, symudodd y teulu yn ôl i Lerpwl yn 1944. Ond mae Frank bellach yn un ohonom ni gan iddo ef, ei wraig Meryl a'u plant Rhian, Ieuan a Sian ymgartrefu yn Anedd Wen, Pontrug. Yma y bu i'r 'Sgowsar' ddysgu a meistrioli'r Gymraeg.

Yn y 60'au cynnar, bu'n fyfyrwr yng Ngholeg Celf Lerpwl. Wedi ennill ysgoloriaeth arbennig gan ddinas Lerpwl bu'n peintio o gwmpas pentref San Lazero uwch arfordir yr Amalfi yn yr Eidal. Bu'n dysgu wedyn yn Kirkby tra'n dal i arlunio o gwmpas y ddinas - yn bennaf mewn olew a phastel.


Dychwelodd i'r Eidal, y tro hwn i bentref Piccolupo lle bu'n gweithio ar dirluniau yn bennaf mewn dyfrlliw. Dyma pryd y bu i Frank ddysgu'r Eidaleg a hynny yn bur rhugl. Ar ddiwedd 1969 sefydlodd galcri yn Breckfield Road North. Yno bu'n arddangos lluniau o'r ardal fel yr oedd yr adeiladau yn cael eu dymchwel.

Yn 1978, prynwyd ac adnewyddwyd hen siop yn Oakfield Road. Ma'r galeri a'r

siop fframio yma yn dal i fynd o nerth i nerth, ar agor chwe diwrnod yr wythnos ac yn gwerthu printiau o olygfeydd amrywiol Lerpwl. Ar hyn o bryd mae Frank yn gweithio ar luniau o strydoedd Lerpwl - y rhai a fu a'r rhai sydd ar fin cael eu dymchwel.

Cawsom noson arbennig o ddiddorol yn Lerpwl. Cyfarchodd rhai o gyn gyd weithwyr Frank a rhai o'i ffrindiau y gynulleidfa. Roedd pob un yn uchel iawn eu clod a'u parch o Frank ac roedd yn amlwg cymaint oedd cyfeillgarwch pawb tuag ato. Cyfeiriwyd ato fel arlunydd cymdeithasol ac hancsyddol a bod ei waith yn gynnyrch un o arlunwyr gorau a fagwyd yn Lerpwl. Nid yn aml mae proffwyd yn cael cymaint o anrhyddedd yn ei wlad ei hun!

Roedd dros 300 o ddarluniau ar y waliau yn Lerpwl - cyfran o waith Frank oedd hynny. Ymhlith rhai o gapeli, eglwysi a strydoedd Lerpwl, golygfeydd y Grand National yn Aintree a phortreadau o deulu a ffrindiau, braf oedd gweld yr Wyddfa a'i chriw, afon Seiont ac ardal Pontrug. Diolch Frank am gael bod yno a llongyfarchiadau mawr ar drefnu arddangosfa gampus o waith arbennig iawn.



Frank Green yng nghwmni Hazel Williams, Maeres Dinas Lerpwl a agorodd yr arddangosfa'n swyddogol.

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partion, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

E-BOST YR ECO! ecorwyddfa@gmail.com



Ar Ben Arall y Lein



Dechrau tymor digon araf, mi es allan ar y diwrnod cyntaf, sef 3 Mawrth, ac roedd yn eithriadol o oer gyda'r afon yn isel. Roedd yr ysfawr wedi bod yn cynyddu ers rhai dyddiau i wlychu pluen ar y darn o'r Afon Rhythallt o Rhes Madog, Stablau at Bontrhythallt. Mae gwaith ardderchog wedi ei wneud yma, yn rhannol gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac aelodau'r Gymdeithas, i lanhau'r afon a'r glannau. Yn ogystal â bod yn ddelfrydol i 'sgotwrs bydd hefyd yn sicr o leihau rhywfaint ar y gorlifo sydd yn ardal Cwm y Glo a Phen Llyn.

Ond i droi yn ôl at y 'sgota, ni chefais blwc o gwbl ond mi gefais gwmpeini go ddifys, sef alarch fawr. Mae'n amlwg fod hon yn cael ei bwydo yn rheolaidd ac yn disgwyl tamaid pan fo'n gweld rhywun ar yr afon. Tipyn allan o gymeriad yn fy mhrofiad i, gan fel arfer ar yr amser yma o'r flwyddyn pan maent yn dechrau nythu chwythu bygythion mae elyrch. Pan ddaeth hyn i fyny mewn sgwrs yn y Siambr Straeon yn Crawia cefais ar ddeall fod yr hen alarch wedi bod yn cadw cwmpeini cyson i'r rhai oedd yn glanhau'r afon hefyd.

Gobeithio eich bod wedi sylwi fy mod wedi defnyddio'r enw cywir ar y rhan o'r afon sy'n rhedeg o Pen Llyn at Bontrhythallt, sef yr Afon Rhythallt. Mae'r clwb yn ymdrechu i ddefnyddio'r enwau priodol lleol, gan fod nifer yn dod i'r ardal ac yn dechrau rhoi eu henwau eu hunain ar rannau o'n dyfroedd, er enghraifft 'Whitehouse Pool' yn lle Pwll Fon sydd ger Aber yr Afon

Caledffrwd ym Mrynrefail.

Fel rhan o ymgyrch i godi ymwybyddiaeth 'rydym wedi cael tipyn o arian o Gynllun Pysgota Cynaliadwy Cymru, arian o'r Cynulliad Cenedlaethol ond yn cael ei *wind-up* gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Drwy'r cynllun yma mae arwyddion yn cael eu paratoi gyda'r enwau priodol arnynt. Er enghraifft yn Mhen Llyn yr enwau fydd - Rhyd Bach, Rhyd Mawr, Seston Fawr, Pwll Fon a Llyn Garreg Frân. Ac yn Mhontrhythallt: Llyn Du, Llyn Tomos Lewis, Llyn Garreg Fawr, Fflatiau Hen Lanciau (Fflat Hogiau) a Rheuad.

Cyfeiriais y mis diwethaf ein bod yn disgwyl gweld yr adroddiad ar sut i ymdrin â phroblemau Llyn Padarn yn dod i law erbyn diwedd Chwefror. Y dyddiad nesaf 'rwyf wedi'i gael yw y bydd yr adroddiad drafft i law erbyn diwedd Mawrth. O fewn amser i gael trafodaeth yng nghyfarfod ncsaf o Fforwm Padarn. Wedyn bydd yr adroddiad gyflawn ar gael yn ystod Mai, eleni gobeithio!!

Gyda'r tywydd yn cynhesu mae'r wyau cogiaid yn Neorfa Crawia a deorfa'r Asiantaeth yn Nolgellau wedi deori. Mae oddeutu 21,000 o cogiaid bychan i'w stocio allan at ddiwedd Mai. Os bydd popeth yn iawn bydd y pysgod bach yma yn cael eu rhannu rhwng Afon Arddu, Llanberis, Afon Goch a Caledffrwd, Deiniolen. Bydd hefyd oddeutu 4,000 yn cael eu cadw yn ôl hyd at Medi a bydd rhain yn cael eu didoli ymhellach i leoliadau eto i'w cytuno.

Llyn Dywarchen fydd yn cael y sylw o laf Ebrill, gyda'r stocio cyntaf ar 28 Mawrth gyda brithyll yr Enfys. Bydd stocio wedyn yn fisol hyd at ddiwedd Medi.

Huw Price Hughes

TAIR ALLAN O BUMP - DIGON DA?

Wedi cyfres siomedig yr Hydref buasai nifer yn fodlon â llwyddiant 60% o ran ennill i Gymru ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad. Ar y cyfan siomedig oedd y perfformiadau, yn enwedig o gofio bod camgymeriadau elfennol a diffyg disgyblaeth wedi britho pob un o'r gemau. Er i'r pac berfformio yn foddhaol, siomedig iawn oedd cyfraniad yr olwyr. Digon o enwau 'mawr' a bechgyn 'mawr' yno ond prin yw'r gallu i dorri'r llinell neu gymeryd yr opsiwn iawn ar y foment dyngedfennol. Dangoswyd hynny'n eglur draw ym Mharis heb ddoniau Shane Williams ar gael. Mae tipyn o waith o flaen y garfan cyn Cwpan y Byd yr Hydref yma.

Mae llygedyn o obaith ym mherfformiadau cynhenid rhai o'r garfan dan 20 oed. Ond, prin yw'r cyfle maent yn ei gael dan y system ranbarthol sy'n drwm o dramorwyr.

Un calondid yw fod amddiffyn Cymru yn foddhaol, ond rhaid rhywsut ddod â'r elfennau cynhenid o drin pêl a bylchu yn ôl. Tybed a fuasai pas gyflymach Peel, yn hytrach na Phillips, wedi bod yn well opsiwn. Ydy Hook yn faswr o reddf? A ellir datblygu y George North cryf, tywyllodrus yn ganolwr?

Ie, gêm o ofyn cwestiynau o hyd yn hytrach na darganfod atebion yw bywyd cefnogwyr cyfoes rygbi Cymru. A'r garfan hyfforddi?

LLYGAI SGWÂR

Dyna yw fy sefyllfa o wyllo cyn gymaint o'r criced o'r Cwpan Byd yn ddiweddar. Cafwyd gemau cofiadwy, perfformiadau unigol cofiadwy a'r darluniau'r cwmnïau teledu yn benigamp. Yn wahanol i'r byd pêl-droed,

yn ddiweddar caed safon uchel o ddyfarnu, gyda'r ail-chwarae yn aml yn cadarnhau cywirdeb y swyddogion.

Cofio cyfraniad y gwledydd llai hefyd yn enwedig yr Iwerddon.

Diddorol oedd gwrandao ar y drafodaeth am Joyce ac Eoin Morgan, sydd wedi chwarae i Loegr ac Iwerddon. Gwir y dywedodd yr unigryw David 'Bumble' Lloyd, 'there are financial implications for the individual to consider.' Pawb a'i bris, hwnna ydi o!

Elfen braf yw gweld pwysigrwydd y troellwr yn dychwelyd. Rhaid edmygu crefft ac agwedd ymosodol Swann yn arbennig. Ac rwy'n siŵr y bydd llygaid y Saeson ar droellwr ifanc llaw chwith Iwerddon.

Erbyn i chwi ddarllen hyn byddwn yn gwybod pwy fydd yn y rownd derfynol. I mi, y ddwy garfan fwyaf cytbwys yw Awstralia a'r India. Nid yw Lloegr yn ddigon cyson eu perfformiad ac yn sicr yn colli agwedd ymosodol Peterson a Broad. Cawn weld

A FU AWR FAWR?

Rwy'n sgwennu'r llith y mis yma yng Nghaerdydd ar ddechrau wythnos y gêm bêl-droed fawr rhwng Cymru a Lloegr. Stadiwm llawn, y prif chwaraewyr yn ôl, a gêm gystadleuol gyntaf Garry Speed fel rheolwr. Wn i ddim beth fydd y canlyniad - pen neu'r galon? - ond yn sicr mae pwysau ar y chwaraewyr i ad-ennill parch y cefnogwyr. Tybed a ddaeth y gêm ar adeg anghywir gyda meddyliau'r Cymry o glybiau Caerdydd, Abertawe, Spurs ac Arsenal ar wobrau uwch gyda'u clybiau.



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG
Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:



Bwyd lleol

Busnesau cefn gwlad

Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfngyng yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

CHWARAEON

CLWB BEICIO MYNYDD ERYRI



Fel roedd yr *Eco* yn dod o'r wasg roedd clwb newydd sbon danlli yn cael ei sefydlu o fewn y fro. Ar nos Fercher 30ain o fis Mawrth yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug, y gwelodd y clwb hwn olau dydd am y tro cyntaf. Tri o fechgyn ieuanic yn byw yn Llanrug sydd tu ôl i'r fenter, sef Gareth Roberts, Dylan Arnold a Steven Jones. Mae'r tri wedi bod yn mwynhau beicio mynydd ers rhai blynnyddoedd, a bellach yn teimlo fod angen clwb i hyrwyddo'r gamp ymhlith plant, ieuenctid ac oedolion y fro ac ardal ehangach.

Trwy gyfrwng tudalen ar Facebook, ceisiwyd cael rhyw syniad o faint o ddiddordeb oedd mewn sefydlu clwb o'r fath, a chawsant dros 400 o ymholiadau!

Y bwriad yw cyfarfod bob yn ail Sul mewn gwahanol ganolfannau sy'n arbenigo mewn llwybrau beicio mynydd, gan gynnwys Plas Menai, Coedwigoedd Gwydir, Betws y Coed, Penmachno a Beddgelert, a hyd yn oed mor bell a Llandegla. Bwriedir hefyd gynnal rhai nosweithiau beicio yn ystod yr wythnos.

Mae croeso i blant, ieuenctid, oedolion a rhai hollol ddibrofiad ymuno â'r clwb. Am fwy o wybodaeth gallwch fynd ar Facebook a theipio 'Clwb Beicio Mynydd Eryri' neu gysylltu ar e-bost, sef cbmeryri@gmail.com neu ffonio Gareth Roberts ar 07964529504.

Bydd mwy o wybodaeth am weithgareddau'r clwb i'w gael yn rhifyn nesaf yr "*Eco*"

Pêl-droediwr Ifanc Addawol

Mae Jack Salisbury Burman o Lanrug yn mynnu chwarae â phêl bob cyfle posibl, ac wedi mopio'i ben cfo tîm pêl-droed Lerpwl. Yn ariod o dim blwyddyn i Llewod Llanrug, mae'n ymarfer yn rheolaidd gyda hwy bob nos Fawrth yn Ysgol Brynrefail. Mae eisoes wedi cael dau gyfle i ymarfer yn Academi Pêl-droed Lerpwl, gan drefnlio tri diwrnod yn cael ei hyfforddi gan staff proffesiynol y clwb. Yn ystod un o'r cyfnodau hyn cynhaliwyd twrnament i'r holl blant oedd wedi mynychu'r cwrs, a dacth Jack yn ail mewn cystadleuaeth cicciau cosb. Mae'n edrych ymlaen am ei ymweliad nesaf â'r Academi, ac mae ei fryd ar ddilyn ei arwr, Steven Gerrard i fyd pêl-droed proffesiynol.

PLANNU'R EGIN

Brake Liners (Ferodo), Caernarfon Town Res., Caernarfon Y.M.C.A., Mcbees Utd., Mountain Rangers. Dyna oedd y timau ynghlwm â thre Caernarfon pan ddechreuais i chwarae yn y Caernarfon and District ganol y chwe degau. Pum taith i herio'r Cofis yn lliwiau Bethesda, Llechid Celts a'r Normal. I feddwl fod canran uchel o'r carfannau Cofiaidd yn hogiau lleol mae'n rhoi darlun o gryfder pêl-droed y dre yn y cyfnod. Yn fuan wedyn daeth cyfnod y chwaraewyr 'mewnfudol' o Lerpwl, Wrecsam, etc. Yng nghanol y 60au roedd tîm cryf o hyd yn Ysgol y dre. Byddai nifer o hogiau yr Ysgol yn chwarae i dîm y Y.M.C.A. gyda hen bennau fel Bobby Haines yn ceisio ychwanegu tipyn o brofiad. Colli pob gêm bron iawn., ond daeth nifer o chwaraewyr da o'r cychwyn siomedig yno. Heb sôn am y rheolwr, y ficar fyddai'n smocio'n ddi-baid. Sôn am gymeriad.

Nos Wener diwethaf denwyd bron iawn i 2,000 'r Oval i weld y Dre yn herio'r Crwydriaid. Awyrgylch wych, digon o goliau ac ymdrech dda gan y ddau dîm i chwarae pêl-droed ar y llawr. A thimau llawn hogiau lleol.

Mae system ieuenctid yn denu siâp ar yr Oval erbyn hyn. Yr unig wendid welaf i yw fod nifer o'r garfan ieuenctid - sy'n chwarae ar y Sul fel arfer - yn chwarae i glybiau lleol ar y Sadwrn - neu ddim efallai os oes gêm ar y Sul. Yn amlwg os yw tîm Caernarfon yn parhau i ddatblygu'n llwyddiannus yna bydd penderfyniadau anodd i'w wneud gan rai o'r chwaraewyr. Anodd yw dangos teyrngarwch i ddau feistr. Braf fuasai meddwl y gallasai tîm Caernarfon ddychwelyd i Gynghrair Cymru mewn rhyw bedair blynedd gyda'r mwyafrif o'r garfan yn 'lleol'. I hynny ddigwydd yna gwelaf nifer o'n timau lleol yn colli eu chwaraewyr dawnus. Amser a ddengys.

RHEDEG MYNYDD

Mae'r tymor bellach wedi cychwyn o ddifrif, a dwy ras lleol eisoes wedi eu cynnal. Yn ystod Chwefror daeth dros gant a deg ar hugain o redwyr i gystadlu ym Moel-y-ci ar ddiwrnod sych ond oer. Roedd yn wlyb iawn dan draed, yn enwedig ar hyd mawnogydd y copa ac o fewn y goedwig, ond daeth pawb yn ôl yn ddiogel.

Bu peth llwyddiant lleol, yn bennaf ymhlith y rhedwyr hŷn. Daeth Ali Thomas, Llanberis, yn ail ferch dros 40 oed. Yn y dosbarth i ferched dros 50 oed, daeth Bridget Ripley yn ail a Stel Farrar yn drydydd, y ddwy o ardal Dinorwig. O'r un ardal, daeth Maggie Oliver yn ferch gyntaf dros 60 oed. Daeth Mathew Ward (gynt o Benisa'rwaen) yn drydydd yn yr adran i ddynion dros 40 oed, a Dafydd Thomas, Llanrug yn gyntaf yn adran y dynion dros 60 oed. Yn y rasys plant daeth Zoe Wood, Llanberis, ac Anna Whiteside Thomas, Llanrug, yn ail a thrydydd yn yr oedran dan bedair ar ddeg.

Bythefnos yn ddiweddarach cynhaliwyd ras Moel Wnion ar gwrs newydd yn cychwyn o Aber yn hytrach nac o Lanllechid. Roedd bron i gant o redwyr yn cystadlu, a llond bws wedi teithio o'r Alban yn unswydd ar gyfer y ras. Nhw hefyd aeth â nifer o'r gwobrau. Ond roedd llwyddiant lleol, gyda Paul Jenkinson o'r Waunfawr yn drydydd i ddynion dros 40 oed, ac Arwel Lewis, Bethel, yn drydydd dros 50 oed. Owain James o Ddeiniolen ddaeth yn gyntaf dan 18 oed. Unwaith eto, roedd Maggie Oliver y ferch gyntaf dros 60 oed a Stel Farrar yn ail ferch dros 50 oed.

Yn ystod mis Ebrill bydd y gyfres boblogaidd o Rasys Nos Fawrth yn cychwyn. Mae'r ras gyntaf i'w chynnal o'r Fron i gopa Moel Tryfan, a bydd rasys i blant o wahanol oedran yn rhan o'r gyfres.

